

ECO'R WYDDFA

RHIF 45

CHWEFROR 1980

Pris: 12c

GWASG GWYNEDD WEDI NEWID AELWYD

Ychydig cyn diwedd y flwyddyn cododd Gwasg Wynedd eu pac a symud o bentref Nant Peris i ffatri barod ar gyrion Caernarfon. Clywsant yn gyntaf am y symudiad tua dwy flynedd yn ôl ond oherwydd un peth a'r llall, ni chwblhawyd y gwaith hyd yn ddiweddar.

Er iddi fod yn gartref i'r Wasg am saith mlynedd, ni fu'r hen ysgol yn y Nant erioed yn ddelfrydol ar gyfer y gwahanol agweddau o'r gwaith argraffu. Gyda'r cynnydd diweddar yng ngwaith y Wasg daeth prinder lle yn yr adeilad hynafol yn broblem amlwg.

Yn yr adeilad newydd, sy ar ystad ddiwydiannol Cibyn ger Caernarfon, mae ystafelloedd pwrpasol, digon o le storio, llawr eang ar gyfer y peiriannau diweddaraf, nenfwd uchel yn ogystal â nifer o agweddau eraill sy'n gwneud amgylchfyd y gweithwyr yn fwy pleserus. Mae wyth yn gweithio yng Ngwasg Gwynedd ar hyn o bryd a'r gobaith

yw y gallant gyflogi rhagor yn y dyfodol.

Drwg gennym weld diwydiant sy'n ffynnu yn gorfod gadael yr ardal hon ond ar yr un pryd diolchwn nad oes neb yn yr achos hwn yn colli ei swydd nac yn gorfod symud yn bell o gartref.

Wrth ddymuno'n dda i Wasg Gwynedd yn eu cartref newydd rhaid dweud mai peth anodd iawn i ni yn yr Eco fydd dygymod â'r ffaith nad ydynt bellach yn gweithio o fewn bro y papur. Ond er gwaethaf y pellter daearyddol bydd y berthynas rhyngddom yr un mor glos ag o'r blaen.

ANRHYDEDDU MRS MARREN

— gwerthfawrogiad y Parchedig Dad P. McNamara

P. McNamara. Nos Fercher, Rhagfyr 19, rhoddwyd un o anrhydeddau pwysicaf yr Eglwys Babyddol i Mrs Chritine Marren, Plas Eryr, Deiniolen. Derbyniodd yr anrhydedd Pabaidd a elwir yn

Pro Ecclesia et Pontifice yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Offrymwyd yr Offeren gan Mgr. Hannigan V.E., a gynrychiolai'r esgob. Rhoddir yr anrhydedd ar ffurf medal y Sanctaidd Groes.

Tanlinellwyd yn arbennig ei gwasanaeth hir a gerthfawr dros addysg Gatholig, ac y mae hynny'n golygu yn anad dim yr help mawr, y mae hi, fel un o'r Rheolwyr, wedi'i roi dros gyfnod o 40 mlynedd i ysgol y Santes Helen, Caernarfon. Gan fod Mrs Marren yn gweithio'n dawel bob amser y mae hi'n anodd manylu, ond gall y rhai a chanddynt gyfrifoldeb yn yr ysgol dystio mor effeithiol ar bob

lefel oedd ei gwaith.

Er bod yr agwedd hwn o'i gwaith wedi cael sylw arbennig, gŵyr pawb nad yw ond un o'i gweithgareddau yn y plwyf. Ac fe ŵyr bobl Deiniolen a'r cylch hefyd mai gwir wraig y fro ydi Mrs Marren, sydd yn ymddiddori ar hyd y blynyddoedd ym mhopeth a fyddai er lles y bobl y daeth hi i fyw yn eu plith. Mae'r anrhydedd yn cymryd sylw o hyn oll.




Mrs Marren gyda'r dystysgrif a'r fedal a dderbyniodd.


APÊL AM ARIAN A GWEITHWYR

Mae Pwyllgor y Ganolfan Gymdeithasol yn Neiniolen yn apelio'n daer am weithwyr i ymgymryd â'r gwaith o addasu seler ysgol Gwaungynfi i'w gwneud yn Ganolfan deilwng i'r pentref. Bydd Mr Emrys Wyn Jones yn gyfrifol am yr addasu. Mae'r syniad yma ar y gweill ers 1947 a chydag ymroddiad gwirfoddolwyr lleol gall y breuddwyd ei wireddu yn fuan. Mae apêl hefyd am arian gan drigolion, a rhywun gyda syniadau am weithgareddau i godi arian, rhoddion oddi wrth blant y fro sydd ar hyn o bryd yn byw mewn mannau eraill. Gallwch yrru eich cyfraniadau i'r Trysorydd, Mrs Gwen Hughes, Gwyndy, Rhiwen, Deiniolen neu gysylltu â'r Ysgrifennydd, Mr Dafydd Lloyd Hughes, Y Parch. Trevor Lewis yw'r Cadeirydd, ac mae 11 ar y pwyllgor yn cynnwys 3 cynghorydd, 2 reolwr ysgol a 6 cynrychiolydd o wahanol fudiadau.

Bydd neuadd yr ysgol yn rhan o'r ganolfan ac mae cynlluniau ar y gweill i ychwanegu at y seler. Amcangyfrif o'r gost addasu flwyddyn yn ôl oedd £10,000. Beth amdani bobl Deiniolen — pawb a'i ysgwydd dan y baich!



Ysgol Nant — cartref y Wasg am 7 mlynedd.



Un o'r ystafelloedd yn y cartref newydd yng Nghaernarfon.



Rhai o'r gwirfoddolwyr y tu allan i'r ysgol.

ECO'R WYDDFA

CHWEFROR 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug
(C'fon 3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisrwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

BYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220).

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul (Llanberis 533)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Allan:

CHWEFROR 28

Deunydd i law

y Golygyddion perthnasol

CHWEFROR 20

LLYTHYRAU

CYTHRAUL PÊL-DROED

Annwyl Olygydd,

Caniatewch i mi, drwy gyfrwng y
dudalen hon, ymateb i lythyr di-enw
"Cefnogwr Pêl-droed Bro'r Eco" yn
ein rhifyn diwethaf, ac a
ymddangosodd yn ddiweddarach yn y
Faner. Nid testun trafod yn yr ardal
hon yn unig yw ei sylwadau angharedig
bellach ond, mi ofnaf, gondemniad o
Eco'r Wyddfa, neu o leiaf ran ohono,
i'w ddarllen ar aelwydydd Cymru
gyfan.

Ni cheisias fy amddiffyn fy hun, fel
Golygydd Chwaraeon, o'r honiadau a
wnaed, ond ar fy ngwir ni fûm yn
ymwybodol erioed fod tuedd tua'r un
club na'r llall yn of. Os perthyn yr elfen
leiaf o wir i'r cyhuddiad, yna
ymddiheuraf yn llwyr — methais yn fy
swydd fel sylwebydd niwtral.
Adroddiadau Mr D.W. Thomas o
Llanrug a Mr Eurwyn Thomas o
Llanberis (trefn y wyddor!) yw'r
mwyafrif o'r cynnwys misol, y
cyfwyniad ac ambell ddiweddglo yn
unig a berthyn i mi ble mae pêl-droed yn
y cwestiwn.

Er hynny, 'rwy'n amau hawl foelol
"Cefnogwr Pêl-droed Bro'r Eco" i'm
barnu fel gohebydd. Dylai wybod nad
newyddiadurwyr proffesiynol ydym ar
fwrdd yr **Eco**, ond amaturiaid
dibrofiad sydd â'u hunig ddiddordeb
mewn cyflwyno'r Gymraeg ysgrifenedig
i aelwydydd yr ardal. Bendiith tad i
chwi gyfaill, peidiwch â defnyddio fy
erthyglau "coch a gwyn" i fel esgus i
golli amynedd â'r **Eco** — peidiwch â
gosod yr iau honno ar fy ngwar.

Ni achosodd eich cyhuddiad, nac

ychwaith eich awgrym, nad yw fy
addysg yr hyn a ddylai fod, friw o gwbl
i mi — i bob un ei farn ac i bob barn ei
llafar, ddweda'i — yr hyn sy'n fy mlino
yw'r ffaith nad oeddech yn ddigon o
ddyn i arwyddo eich llythyr. Onid yn
ein Cyfarfod Cyffredinol y dylech fod
wedi codi materion o'r fath? Wyneb yn
Wyneb? Cans ni fuaswn yn eich
adnabod petawn yn baglu trosoc, er fy
mod, yn rhinwedd fy swydd, yn gwybod
eich enw a'ch cyfeiriad. Fel y
gwyddoch, 'rwy'n berffaith siôr, nid
oes hawl cyfreithiol gen i na neb arall
i'w cyhoeddi, er fy mod yn ysu am gael
gwneud.

Hwyrach mai arnaf i mae'r bai, ond
mae llythyrau di-enw yn codi cyfog
arnaf. Gweithredoedd cachgiaidd,
di-asgwrn cefn ydynt, ac ni welaf yr un
cyfiawnhad i'w cynnwys mewn papur
na chylchgrawn o'r un math. Os nad
yw'r llythyrwr yn fodlon cysylltu ei enw
â'i farn, yna nid yw'r farn honno'n
haeddu ei darllen.

Edrychaf ymlaen, "Cefnogwr Bro'r
Eco", at eich gweld yn ein Cyfarfod
Cyffredinol nesaf; hwyrach yr hoffech
yno gael eich ethol yn Olygydd
Chwaraeon yn fy lle i, wedi'r cyfan, y
cwbl mae'r swydd yn ei olygu yw
gwaith caled, di-dâl, di-ddiolch, er
mwyn rhoi'r cyfle i eraill ymosod arnoch
— yn ddi-enw.

Diolch, Mr Golygydd, am ganiatáu i
mi lygru mwy na'm cyfran arferol o ofod
Eco'r mis hwn.

Yn gywir iawn,
Dafydd Evans.

HER I DDARPAR ATHRAWON YR WYTHDEGAU

Annwyl Ieuencid,

Er bod llawer o sôn am brinder
swyddi i athrawon, mae'n edrych yn
debyg y bydd yna brinder athrawon
dwyieithog yn y dyfodol. Os yw'r
Gymraeg i ffynnu rhaid cael athrawon
dwyieithog da, a dyma'ch cyfle. Yng
Ngholeg y Drindod cewch ddilyn
cysiau Diploma Addysg Uwch a gradd
B.Add. gan arbenigo mewn Addysg
Ddwyieithog — gradd newydd gyffrous
wedi'i threfnu'n arbennig ar gyfer dysgu
yng Nghymru. Mae yma her i chi —
ymatebwch iddi.

Neu fe ellwch ddilyn gradd B.A.
trwy'r Gymraeg gan gyfuno astudiaeth
o Lenyddiaeth Gymraeg, Hanes Cymru
ac Addysg Crefydd — sylfaen da i fynd
ymlaen am gwsr pellach i'ch cymhwyso
ar gyfer amrywiol swyddi yng
Nghymru.

Mae'r Coleg yn cynnig llety mewn
neuadd i bob myfyrwr; awyrgylch
Gymreig mewn Coleg a thref bwysig yn
y Gorllewin a gofal staff fydd â
diddordeb ynoch fel unigolion.

Fe gewch fanylion pellach ond i chi
anfon at y Cofrestrwydd yn y Coleg.

Yn gywir,
K. Mansel J. Jones,
Prifathro,
Coleg y Drindod,
Caerfyrddin

Annwyl Gyfaill,

A fydddech mor garedig a roi'r llythyr
isod yn eich papur bro.

Mae Ysgol Borthygest yn dathlu ei
chanmlwyddiant ar Ionawr 13, 1980.
Bydd y dathliadau yn cael eu cynnal yn
ystod yr wythnos Mai 12-19.
Cynhyrchir plât arbennig gyda llun yr
ysgol yn ei ganol a lluniau o ddeuddeg
llong o'i hamgylch — llongau a gafodd
eu hadeiladu ym Mhorthygest yn ystod y
ganrif ddiwethaf, llongau enwog fel
'Amanda', 'Pride of Wales' a
'Fleetwing'. Os ydych eisiau archebu
plât anfonwch £5 i'r prifathro yn yr
ysgol. 1,000 yn unig a gynhyrchir gan
Craftcentre Cymru, Porthmadog. Ni
fyddwn yn eu hanfon drwy'r post.

Cynhyrchir mwg hefyd am £1.50 a
blwch llwch am 75c. Gobeithir cael
llyfryn allan o hanes yr ysgol. Bydd
elw'r holl werthiant yn mynd i gronfa'r
ysgol.


Cofion gorau,
Alun Roberts (Prifathro),
Ysgol Borthygest,
Borthygest.

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennodd fy mrawd, Wilf A.
Jones i'r **Eco** ddiwedd y flwyddyn yn
deud fod mam yn anfon yr **Eco** iddo o'r
Fachwen. Ers hynny mae wedi cael
llythyr gan deulu o Birmingham a fu'n
yn byw yn Nhy'n y Fawnog, Dinorwig
flynyddoedd yn ôl (1915), byddai'n
mynd i'r ysgol efo mam. Yr wyf innau
rwan yn anfon llun o mam, Mrs Katie
Jones, Bryn Bella, Fachwen a finnau,
ei merch, Beryl, fy mab i, Colin, a'i
ferch fach. Gan obeithio y cynhwyswch
ef yn yr **Eco** er mwyn i'r teulu o
Birmingham gael ei weld. Mi fydd
mam yn 83 mlwydd oed mis nesaf.
Mae'n byw yn y Fachwen erioed a'i
theulu i gyd o'i blaen. Byddaf innau'n
mynd i'r Fachwen bob dydd Sadwrn.

Pob lwc i'r **Eco**, mae'n diddori
llawer ar hyd a lled y byd.

Yr eiddoch yn gywir,
Beryl Shields,
35 Conway Road,
Llandudno.



COFIO LLANRUG

Annwyl Olygydd,

Difyr oedd gweld lluniau o Ysgol
Llanrug yn y tridegau, a llawer o
atgofion a ddaw yn ôl i mi wedi gadael y
pentre ers 1949.

O! rwy'n cofio'r ardal d wel
A'r hen bentre bychan clyd;
A'rwy'n cofio'r dyddiau dreuliais
Yn yr ysgol yn Llanrug.

Sgwâr y Post ar bwys y Capel,
Ar noson oer a'r sêr uwchben,
Ninnau'r hogiau yn gellweirus
Ar bwys Garage Sinc D.M.

Cofio am y bysbus chwarel
A swm traed yr hoelion mawr.
Llawer hwyl a sbri y caban
Sydd fel breuddwyd imi nawr.

Estron wyf yn awr i'r ardal,
Ac i lawer yn y Llan;

Llawer ffrind a'u henwau annwyl
Dan y gro ar bwys Bryn Llan.

Ond pwy wŷr na chaf rhyw ddiwrnod
Hel y llus ymysg y grug,
A chael bwthyn i ymddeol
Ger yr ysgol yn Llanrug.

Yr eiddoch,
Walter Jones (Parc gynt),
26 Nantyglyn,
Cyffordd Llandudno.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu
cyfraniadau hael tuag at y gost o
gynnal yr **Eco**.

£1 : Mrs A. Roberts, Fellowfield,
Manceinion; Mrs Enid Jones,
Talysarn; Mrs Nan Owen, Rhes
Efrog, Llanberis (dychwelyd ei
gwobr croesair).

£3.00: Jennie Davies, Llangeitho,
Rhodd er cof am ben-blwydd Owen
Wyn gynt o 7 New Street, Cwm-y-glo
oddi wrth ei chwiorydd.

£2.00: Meurig Owen, Lewisham; Mrs
Beti Rees Evans, Llanberis.

£2: E. Jones, Trelawnyd.

£1.00: Ronnie L. Williams, Leicester;
Di-enw, Llanrug; Di-enw, Lloegr;

LLANBERIS

NOSON GOFFI - Nos Wener, Chwefror 22, yn y Ganolfan Gymdeithasol cynhelir noson goffi gan staff Canolfan Iechyd y pentref.

Defnyddir yr arian a gesglir i brynu offer newydd i'r ganolfan iechyd, a fydd er llës pawb.

Dewch yno'n llu i gefnogi!

YMDDEOL - 'Roedd dydd Gwener, Ionawr 18, yn ddiwrnod trist iawn i aelodau staff y Ganolfan Iechyd, pan y ffarweliont â Mrs Annie Wilson Jones (Nanan fel yr adnabu pawb hi). Mae Mrs Jones wedi ymddeol ar ôl naw mlynedd yn ei swydd.

Dymunwn iechyd da a phob hapusrwydd iddi.

YN GWELLA - Da yw deall bod Mrs Jennie May Jones, 3 Maes Padarn wedi dod adref o'r ysbyty ac wedi gwella yn dda.

Dymunir adferiad buan i Mr Peter Angel, Rhes Faenol sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty yng Nghaernarfon, hefyd Mr Eric Roberts, Rhes Minafon, yntau yn yr ysbyty.

MARW - Ar y 5 o Ragfyr yng Nghaernarfon bu farw Mr Owen Roberts, yn 80 oed. 'Roedd yn un o fechgyn mwyaf adnabyddus yr ardal, ac er ei fod wedi symud i fyw i'r dre, deuai yn ôl i'r ardal i ymweld â'i chwaer Miss Bessie Roberts, Stryd Truenr, yn gyson iawn. 'Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn Eglwys Sant Padarn, ac hefyd gyda chlwb yr henoed yn y dref.

Cydymdeimlwn â'i weddw a'r teulu yn eu profedigaeth.

Yng Nghapel Gorffwysfa ar y 1 o Ionawr cynhaliwyd cyfarfod angladdol i Miss Morfudd Evans, gynt o Stryd Siarlot, a fu farw yng nghartref ei nith, Mrs Eurwen Wigley, Y Borth, Ynys Môn. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Marcus Robinson ac Idris Davies.

Un o gymeriadau annwylaf yr ardal ydoedd Miss Evans, wedi dilyn ei gyrfa fel athrawes babnod ar hyd ei hoes, ac wedi annwyllo ei hun i ugeiniau ar ugeiniau o blant bach yr ardal.

Nid yn unig yn yr ysgol leol yr ymddiddorai ei hun gyda phlant, ond yn y gobeithlu bob nos Lun, ac yn yr ysgol Sul, ar bawn Sul, ac fe adwaenid hi gan y plant ond fel 'Anti Morfudd'.

Cydymdeimlir a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ar ôl blynyddoedd o waeldd, wedi ei ddiodeff yn dawel a dirwgnach, bu farw Mr Alun Williams, Rhianfa. Fel Alun Plas Coch y byddai pawb yn ei adnabod - ac 'roedd yn fawr ei barch gan bawb o'r ardalwyr. Collodd fab ychydig wythnosau yn ôl - bu colli Glyn yn ergyd drom iawn iddo.

Ein cydymdeimlad dwysaf i'w weddw a'i fab John yn eu profedigaeth.

Yn yr ysbyty ym Mangor bu farw Mrs Elin Evans, Fflatiau Maes Padarn. Gwraig dawel, bob amser yn barod ei chymwynas, ac yn hynod ffyddlon yn y capel.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w mab Mr Elfyn Evans ac i'w chwaer Mrs Idris Morris.

GWERTHU PABI - Lleng Frenhinol Brydeinig. Fe werthwyd gwerth £210.65 o babiau yn Llanberis a'r cylch ac y mae y Trefnydd, Mr Hugh Griffith, 7 Llainwen Isaf eisiau diolch i'r rhai a ymgymerodd â'r gwerthu, prynu a dosbarthu.

Hefyd fe gafodd raffl fawr Nadolig ei thynnu nos Fawrth, Rhagfyr 18. Diolch yn fawr am gefnogaeth yr ardal. Mae lle i gyn-filwyr ddod ymlaen yn enwedig o Gwm-y-glogan nad oes neb ar y Pwyllgor Gwaith oddi yno.

CLWB METHEDIG ERYRI - Cynhaliodd y Clwb uchod wledd y Nadolig yng ngwesty Llyn Padarn ac yna y cafwyd y cinio gorau gafwyd erioed. Cymerwyd y fendith gan Mr Oswyn Rees, Swyddog Rhanbarth Arfon o'r Gwasanaeth Cymdeithasol.

Meistr y Seremoni oedd yr ysgrifennydd Ted Thomas. Cafwyd gair hefyd gan y llywyddes mamath A.M. Jones SRN, Ardwyn. Ffordd Capel Coch, Llanberis. Ar ôl y wledd fe gafwyd cyngerdd gan aelodau y Clwb gyda Mrs Eluned Jones, Rhes Cae yn cyfeilio, ac yr oedd yn westai hefyd.

Cafwyd canu carolau, eitem gan Mr John Williams, 3 Rhes Gynfi, Deiniolen, Mr Alun Roberts Maes Gwylfa, Mrs Katie Williams, Derwen Deg a'r cwbl dan arweiniad Mr Ted Thomas. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i'r Clwb yn ystod y flwyddyn 1979. Dyddiadur y Clwb. Llun, Ion 8, 15, 22, 29.

DIOLCH - Dymunwn i ar ran ein mam, Mrs Beti Rees Evans, Rhes Minafon ddiolch yn fawr iawn i'w chyfeillion a'i ffrindiau yn Rhes Minafon a Ffordd Capel Coch am eu caredigrwydd ac am ugeiniau o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei damwain ar y ffordd ar Ragfyr 4.

Hoffwn ddiolch i'r meddygon fu mor dda wrthi ond yn fwy na neb, Anti Netta, Non, Arthur ac Eifion am edrych ar ei hôl mor ddirwgnach a siriol. 'Rydym yn falch o ddweud ei bod yn gwella yn dda iawn.

Bryn ac Olwen,

(Rugby a Coventry)

Hefyd dymuna Noel W. Jones, 1 Maes Padarn, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar.

YR URDD - Dymunai cangen Llanberis o Urdd Gobaith Cymru ddiolch i Mr Derryl Jones, Y Siop Goed am ei rodd o focs siocled tuag at raffl Nadolig y mudiad.

Enillwyd y raffl gan Mrs Joyce Jones, 27 Dôl Elidir, a gwnaed elw o £42 ar y fenter.

GWASANAETH NADOLIG - Yng Nghapel Gorffwysfa ar nos Sul, 23 o Ragfyr, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig gan blant capeli Gorffwysfa, Preswylfa, Nant Padarn a Chapel Coch.

'Roedd y gwasanaeth dan ofal y gweinidog, y Parch Marcus Robinson, gyda chymorth rhai o'r rhieni.

PLAS PEN GWAITH - Bore'r Nadolig 'roedd aelodau'r cartref mewn hwyliau da iawn. 'Roeddynt yn dawnsio ac yn canu carolau, a phob un yn mwynhau ei hun yn fawr iawn. Yn ystod y bore ymwelodd Siôn Corn â'r cartre, ac roedd ganddo anrheg i bawb.

Dymuna pawb ym Mhen Gwaith ddiolch i bawb am eu rhoddion yn ystod yr Wyl, yn enwedig Mr Francis Jones, K.J. Jones, a W.R. Jones am eu help fore'r Nadolig. Hefyd dymuna Mrs M. Williams, ar ran Pen Gwaith, ddiolch i Mrs Barber, Marcus St., Caernarfon am ei rhodd o dwrci i'r cartref.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL COCH, GORFFWYSFA A PHRESWYLFA - Y gwestai ar Ragfyr 3 oedd Mr Arwel Jones yn siarad am ddylanwad ardal Llanberis ar 'Hogia'r Wyddfa, a chawsom wrando ar ambell gân sydd erbyn hyn yn adnabyddus drwy Gymru gyfan. Piti bod y tywydd mor anffafriol. Diolch yn fawr Arwel.

Rhagfyr 17 buom yn canu carolau o dan arweiniad Mr Richard Jones. Hwyl ardderchog ar y canu, a phawb yn mwynhau te a mins peis ar y diwedd.

Ionawr 7 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn o dan ofal chwirydd yr eglwysi. Noson fendithiol iawn.

LLONGYFARCHIADAU - I Miss Fiona Jones, Ael-y-bryn, 17 Stryd Newton, am fod yn llwyddiannus yn ei harholiad piano gradd 4. Mae yn dysgu gyda Miss C. Williams, Summer Hill.

CARNIFAL - Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Carnifal nos Iau, 13 o Ragfyr 1979 yn y Ganolfan Gymdeithasol. Derbyniwyd Mantolen 1979 gan y Trysorydd ac fe ddangosai elw o £2,655.15. Mae'r arian yma wedi ei fuddsoddi yng nghronfa'r Carnifal tuag at ehangu'r Ganolfan Gymdeithasol, ac fe saif y Gronfa ar £6,803, heb logau 1979.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ymdrech mor ardderchog.

Etholwyd y canlynol yn swyddogion am 1980.

Llywydd: Mr Meurig Evans; Is-lywydd: Mr Ieuan Ellis Jones; Cadeirydd: Mr Ken Jones; Is-gadeirydd: Mr Lal Jones; Ysgrifennydd: Mr Alwyn Thomas; Is-ysgrifennydd: Mr Cledwyn Jones; Trysorydd: Mr Arfon Phillips; Is-drysorydd: Mr William Roberts; Swyddogion Cyhoeddusrwydd: Mrs Siân Thomas, Mr a Mrs Vernon

Hughes; Trefnydd Padarn Roc: Mr J.G. Williams; Trefnydd Ras yr Wyddfa: Mr Ken Jones.

Penderfynwyd fod elw 1980 yn mynd i Gronfa ehangu'r Ganolfan Gymdeithasol.

GENI - Llongyfarchiadau i Helen a Owen Sharp ar enedigaeth eu mab cyntaf-anedig - Gwilym Edryd. 'Rydym yn siŵr fod nain a taid - Mr a Mrs W. Roberts, Maes Padarn wedi gwirioni'n lân.

Gwirioni'n lân fu hanes Mr a Mrs Wilbert Davies, Rock Terr., hefyd, pan anwyd eu hwyres fach - Delyth Wyn yn ddiweddar - llongyfarchiadau i'w mam a'i thad hithau - Haydn ac Iris Davies, Llanrug.

CWMNI DRAMA - Nos Sadwrn, bu Cwmni Drama Llanberis ym Mhwllglas ger Rhuthun yn perfformio ffars gan Meirion Powell, Rhos, "Twyllo Modryb Angelina".

Cawsant hwyl eithriadol arni, a braf iawn oedd gweld neuadd gyfan o bobl yn chwerthin yn ddi-stop am dros ddwyawr.

Mae'r Cwmni yn perfformio'r un ddrama yn Neuadd Ysgol Dolbadarn, Bydd y Cwmni yn perfformio'r un ddrama yn Llanberis yn y dyfodol agos, - dewch yn llu, mae'n werth ei gweld!

Aelodau'r Cwmni yw Jane Morris, Myrddin Owen, Siân Thomas, Gwilym Rees Parry, Gwyneth Parry, Catherine Owen, Parch Marcus Robinson, Ken Morris, Arwel Jones, y Ficer Gwynfor Williams.



NOSON O ADLONIAN - Nos Sadwrn, Mawrth 8 yn y 'Padarn Lake' cynhelir Noson o Adloniant a sglodion a chyw iâr yng nghwmni John Ogwen a Pharti Eryri.

Tocynnau £2.50 gan Mr Ken James Jones, 19 Maes Padarn.

DIOLCH - Dymuna Helen ac Owen Sharp, 28 Maes Padarn ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur geni eu mab bychan, Gwilym Edryd.

BINGO ELUSENGAR - Nos Wener,

Ionawr 25 cynhaliwyd noson 'Bingo a Chyw iâr' lwyddiannus iawn yng Nwesty'r Gwynedd. Cyflwynwyd yr elw o £48 i Glwb Pêl-droed y pentref.

Hoffem ddiolch yn fawr i Mrs Tudor Owen, Caernarfon am ei rhodd o botel sieri a enillwyd gan Mrs Ethel Williams.

Enillwyr y rafflau oedd: Basged o ffrwythau: Mrs Gwyneth Jones, Basged o nwyddau: Mrs Katie Griffiths, Potel Sieri: Mrs Nellie Davies, Tun Ham: Mrs Siân Thomas, Tun o Ham: Mrs Emily Harden.

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

CWM-Y-GLO

DRAMA'R GENI - Perfformiwyd Drama'r Geni gan blant Ysgol Sul Sant Gabriel yn ddiweddar. Ysgrifennwyd y ddrama gan Mrs J.E. Watkins, Dolwen a hi gydag athrawon yr Ysgol Sul a fu yn gyfrifol am ddysgu'r plant. Yr organyddion oedd Miss Ceridwen Hughes a Miss Judith Orritt. Y mae'r plant i'w canmol yn fawr iawn am eu gwaith da.

GŴYLNOS - Cynhaliwyd yr Wylnos Flynyddol yn Eglwys Sant Gabriel ar Nos Calan o dan arweiniad y Rheithor. Yr organyddes oedd Miss Ceridwen Hughes a da oedd gweld nifer mor dda er gwaetha'r tywydd oer a rhewog.

PARTI'R YSGOL SUL - Daeth plant Ysgol Sul Sant Gabriel i'r Ysgol Gynradd i fwynhau eu parti Nadolig y dydd Gwener wedi'r Nadolig a chawsant amser difyr iawn. Yn ystod y parti dosbarthodd y Rheithor anrhegion ar ran yr Ysgol Sul i bob un o'r plant. Y rhieni ac athrawon yr Ysgol Sul a fu'n darparu ar gyfer y parti.

CYSTADLEUAETH CORNEL Y PLANT - Yng nghystadleuaeth Cornel y Plant yn y Llan, Cyfnodolyn yr Eglwys yng Nghymru, daeth amryw o'r plant yn agos iawn at gael gwobr yn eu hadran. Fe fu i Cynthia Orritt, Morannedd fod yn llwyddiannus i ennill y wobwr gyntaf yn ei hadran a daeth David Foulkes yn agos iawn at gael gwobr yn ei adran yntau. Llongyfarchwn y plant yn galonnog iawn am wneud mor dda, a hynny ar fry rybudd.

MEWN YSBYTY - Anfonwn ein cofion at Mrs J.E. Higgins, Bron Eryri a Mr T. Owen, 3 Dolafon sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor. Eiddunwn iddynt feddyginiaeth lwyr a buan.

O'R YSBYTY - Fe fu Mark Roberts, Argraig yn ysbyty Dewi Sant Bangor o ddydd Sadwrn, Rhagfyr 22 hyd nes amser cinio diwrnod y Nadolig. Rhagorol oedd clywed iddo gael dod adref a hefyd i Santa dalu ymweliad â Mark yn yr ysbyty.

Fe fu Mr Cledwyn Jones, 2 Dolafon yn yr ysbyty diwrnod cyn y Nadolig - ond fe ddaeth yntau hefyd adref mewn pryd i dreulio'r Nadolig.

BEDYDD - Dydd Sul, Rhagfyr 30 bedyddiwyd dydd ferch fach yn Eglwys St. Gabriel, Miss Gwenan Roberts, merch Mr a Mrs I.L.I. Roberts, Awelon a Bethan Wyn, merch Mr a Mrs Francis Hughes, 17 Dolafon.

MERCHED Y WAWR - Ar Ionawr 22 agorodd Cangen Cwm o Ferched y Wawr eu gweithgareddau am 1980,

yn yr Ysgol Gynradd, o dan lywyddiaeth Miss Lowri Prys Williams.

Croesawodd y Llywydd y wraig wadd, Miss Rhiannon James (dirprwy brifathrawes Ysgol Dyffryn Nantlle) i'n plith. Testun ei sgwrs oedd 'Gwyddor Tŷ', a threuliwyd noson ddifyr ac addysgiadol yn ei chwmmi. Diolchwyd iddi gan y llywydd a Miss Mat Pritchard, Rhosbodrual. Hwy hefyd oedd y ddwy westwagedd.

Cafwyd adroddiad o'r pwyllgor gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar, pan gynrychiolwyd y gangen gan Mrs Iris Rowlands a Miss Lowri Prys Williams.

Cyfeiriodd Miss James at y ddarlith yn Theatr Seilo am 7.30 ar Chwefror 22 ar 'Cystic Fibrosis', a draddodir gan y Dr R. Fraser Williams. Y mae cysylltiad agos â Chwm-y-gp a Phenisarwaun â'r arbenigwr hwn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r gangen ar Chwefror 20 pryd y disgwylir Mr Ellis, Brynrefail i annerch.

PÊL-DROED - Sadwrn, Rhagfyr 22: Cwpan Ferodo, Cwm-y-glo 2 v Waunfawr 6. Wyn Sinclair a Dilwyn Morris yn rhwydo dros Cwm.

NEWYDDION YR YSGOL - Ar nos Lun, wythnos olaf tymor y Nadolig cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau a drama lwyddiannus ar thema Stori'r Nadolig, a Blwyddyn Rhyngwladol y Plentyn. Gwnaed casgliad at Gronfa'r Deillion Gogledd Cymru, a Chymdeithas Ymchwil Plant Araf. Dydd Mawrth cynhaliwyd y Parti Nadolig, wedi eio ddarparu gan staff y cantin a staff yr ysgol. Nos Fawrth, aeth y plant a'r athrawon i Fangor i weld y perfformiad cyntaf o'r pantomeim Mwstwr yn y Clwstwr. Yn ystod yr wythnosau olaf o'r tymor ymddeolodd Mr J. Phillips o fod yn Swyddog Croesi'r Ffordd, a chyflwynodd y prifathro anrheg ariannol iddo ar ran y plant, staff yr ysgol a staff y cantin. Cyflwynwyd tystysgrif presenoldeb llawn i'r disgyblion a ganlyn: Joanne Evans; Glenda Walters; Jacqueline Walters a Neil Roberts.

YR URDD - Adran Cwm-y-glo a Brynrefail - Diolch unwaith eto i Mr Dafydd Owen, Trefnydd Urdd yr ardal am fod mor barod i ddangos ail ran y ffilm. Cafodd y plant fwynhad mawr wrth wyllo'r ffilm a ddangosai wahanol weithgareddau'r Urdd. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y plant yn brysur yn paratoi erbyn Eisteddfod yr Urdd.


Ar Ionawr 30 cynhelir Disgo i aelodau'r Urdd yn neuadd yr ysgol.

RAS COETS - Pnawn dydd Mercher, Rhagfyr 26 cynhaliwyd y räs flynyddol yn Llanberis. Am y tro cyntaf yr oedd tîm o Westy'r Snowdon yn cymryd rhan. Mr Gwilym Williams (rheolwr Llanbêr) oedd y fam brydferth ac lfor Roberts oedd y babi tlws. Er i'r tywydd fod yn od o anffafriol 'doedd dim dal ar y ddau yma, ac fe enillwyd pedair o'r gwobrau ganddynt. 1) Tîm Tafarn

gorau; 2) Tîm amser gorau; 3) Tîm wedi gwisgo orau; 4) Coets Addurnedig orau.

Dymuna'r ddau ddewr ddiolch i bawb am eu cefnogi ar y fenter.

Yn y lluniau gwelir yr hogiau yn sbydu ar hyd stryd fawr Llanbêr, ac yng Ngwesty'r Prince of Wales, yn cael eu hanrhegu gan y Cynghorydd Francic Jones. Y tynnwr lluniau oedd Mr John Harris, 4 Craig-y-Don.



GLYWSOCH CHI HON?

Dyma i chi ddetholiad o recordiau a chasetiau newydd yn stoc Llyfrgelloedd Arfon Dwyfor.

Nadolig
Côr Meibion y Traeth
Janice Davies Rees - Darlun fy Mam.

Caneuon Rhwng Gŵyl a Gwaith
Cantorion Ardwyn ar Daith
Philip Jones - Pregethau y Parchedig Philip Jones
Montgomeryshire County Youth Brass Band

Paul Robeson, Golden Hour of Paul Robeson.
Cantorion Clwyd - Carolau

Onid ydych eisoes yn aelod o Lyfrgell Sain Gwynedd, gellwch ymaelodi trwy dalu tanysgrifiad blynyddol o £2.50 ac yna cewch fenthgyn unrhwy un o'r uchod neu o'r niferoedd eraill o ddewis sydd ar gael ym Mhencadlys Arfon Dwyfor a Changen Llanberis.

CLWB ERYRI

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr o Glwb Eryri o dan lywyddiaeth lolo Llywelyn, cafywd sgwrs ddifyr gan Selyf Hughes gydag Eurwyn Jones yn gadeirydd. Testun y drafodaeth oedd 'Rheolau Adeiladu'. Y siaradwr fid Chwefror fydd Gwilym Owen (HTV) a'i destun fydd 'Y Cyfryngau Torfol' gyda Harri Gwyn yn gadeirydd. Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi y Clwb nos Wener 29 Chwefror yng ngwesty Gwynedd, a'r gŵr gwadd fydd Mr James Nicholas. Yn dilyn y cinio a'r anerchiad ceir cystadlaethau llenyddol gyda Llïon Jones Harri Gwyn yn feirniaid.

Bydd Clwb Eryri yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 fis Hydref nesaf a chynhelir y cinio dathlu nos Wener 2 o Hydref gyda'r Arglwydd Cledwyn o Benrhos yn 7wr gwadd ac adloniant gan Hogia'r Wyddfa. O'r criw gwreiddiol a ymaelododd ym 1955 nid oes ond pump ymysg y garfan o hyd sef Iolen Hughes, Rhiwlas; T.W. Thomas, Llanrug; Perisfab, Nant Peris; Richard Jones, Abergele a Rol Williams, Waunfawr sydd wedi bod yn ysgrifennydd Clwb Eryri ers y cychwyn.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

Y GŴR GWADD

Dr. R. Fraser Williams M.B., CH.B., F.R.C.Path.

Ganwyd R. Fraser Williams ym mhentref Durtlang, Lushai, India, lle 'roedd ei rieni yn genhadon. Fe'i magwyd i raddau helaeth yn Llundain, a'i dad bellach yn feddyg teulu yno. Derbyniodd ei addysg mewn amryw o ysgolion gan gynnwys Ysgol Brynrefail lle y treuliodd gyfnod eithriadol o hapus yn ystod y rhyfel. Wedi cyfnod fel efrydydd ym Mhrifysgol Caeredin bu'n gweithio fel meddyg yng Nghaerfyrddin. Penderfynodd arbenigo ym maes patholeg a chafodd hyfforddiant yn y maes yn Birmingham dros gyfnod o bedair blynedd gan ganolbwyntio ar facteriolog. Bu'n ddarlithydd ac yn uwchddarlithydd yn Ysgol Feddygol Ysbyty Sant Thomas, Prifysgol Llundain am naw mlynedd cyn cael ei benodi'n Feibrbeiolegydd Ymgynhorol yn 1970 ar gyfer dau ysbyty plant ac un ysbyty sy'n trin heintiau cyffredinol ym Manceinion. Ei brif-ddiddordeb proffesiynol yw Ffibrosis Systaidd a mae'n ymwneud â 220 o blant gyda'r afiechyd; mae'n honni bod ganddo brofiad dihafal o ganlyniadau'r afiechyd oherwydd mae hefyd yn Gadeirydd Cangen Manceinion a'r Cylch o Ymddiriedolaeth Ymchwil Ffibrosis Systaidd ac yn y swydd hon mae'n ymdrin â phroblemau teuluol a chymdeithasol sy'n codi yn sgîl y salwch. Mae wedi rhoi rhai degau o ddarlithiau ar Ffibrosis Systaidd trwy Prydain Fawr a'r Iwerddon ac ar Gyfandir Ewrop. Mae hefyd yn aelod selog o'r gymdeithas Feddygol Gymraeg.

Tu allan i'w wiath, ei ddiddordebau yw ei deulu (mae ganddo chwech o lbant); darllen - Cymraeg a Saesneg; gwaith coed; pysgota - ei hoff afon yw'r Seiont.

Ffibrosis Systaidd yw'r afiechyd etifeddol mwyaf cyffredin yn ein poblogaeth, a genir dau neu dri o blant gyda'r afiechyd ym Mhrydain Fawr bob dydd; mae'n amharu ar blant Cymru yn ogystal â phlant cenhedloedd eraill (a rydym yn trin amryw o blant Gogledd Cymru yn Ysbytai Plant Manceinion). Er bod Ffibrosis Systaidd yn eitha' cyffredin, ychydig iawn o bobl sydd yn gwybod fawr ddim am y salwch difrifol hwn - efallai am nad yw'r enw (Cystic Fibrosis yn Saesneg) yn disgrifio'r afiechyd o bell ffordd.

Etifeddir yr afiechyd o ddwy ochr y teulu - y plentyn yn derbyn dau enyn, un gan y fam a'r llall gan y tad. Nid oes yr un effaith caryddadwy ar gludwyr genynnau sengl, felly nid oes arwyddion o'r afiechyd yn y rhieni na'u teuluoedd. Digwyddiad annisgwyladwy, chwyldroadol a gofidus yw geni plentyn sydd yn amlwg yn wael a methedig.

Buan iawn mae'r teulu, a'r fam yn bennaf, yn sylweddoli bod yna wall trychinebus ar y plentyn; ond yn aml, anodd yw i'r fam gael neb i wrando ac i weithredu ar ei chwyn a'i phryder. Nid oes yr un arwydd penodol yn amlygiad Ffibrosis Systaidd; yn wir, diffyg ffynnu yw'r mynegiad mwyaf cyffredin, a mae diffyg ffynnu yn tarddu o lu o achosion heblaw Ffibrosis Systaidd.

Mae'n brif-bwysig bod plant a'r afiechyd hwn yn dod ymlaen am driniaeth mor ifanc ag sydd bosibl, a phrif nod darlithiau megis yr un sydd dan sylw yw darbwyllo'r cyhoedd am y symptomau a'r canlyniadau fel y cânt adnabod yr afiechyd. Heb driniaeth gynhwysfawr a chyson, mae'r afiechyd yn amlw yn angheuol ac, o leiaf, yn andwyo iechyd, mwyniant ac addysg y plentyn.

Mae etifeddiaeth dau enyn gan y plentyn yn achosi rhyw wall gwreiddiol, ond nis gwyddir beth yw natur y gwall. Un canlyniad sydd yn tarddu o'r gwall yw tueddiad i heintiau parhaol, ad-ddigwyddiadol a dinistriol yn yr ysgyfaint, a hwn yw'r canlyniad mwyaf difrifol a pheryglus i'r plentyn. Canlyniad arall yw anallu dirfawr i dreulio llawer



mathau o fwyd (yn enwedig bras-ter) ac mae'r anallu hwn yn amharu ar dyfiant ac yn lleihau egni'r plentyn - mae'n tueddu i fod yn fychan a thila. Y trydydd canlyniad o'r gwall yw cynhyrchiad o grynodiad cryf o halen yn chwys (y mae aml i fam wedi sôn am "y gusan hallt"); nid yw'r canlyniad hwn yn achosi niwed i'r plentyn ond mae'n rhoddi prawf diagnostig defnyddiol yn nwyllaw'r meddygon.

Bu cyfraddau heintiau marwol yn ddifrifol o uchel am gan-rifoedd, a ddarfu Ffibrosis Systaidd osgoi bob sylw hyd 1938 pryd cyhoeddwyd y disgrifiad cyntaf o'r afiechyd; 'does rhyfeddod am hyn canys yr oedd miloedd ar filoedd o blant o bob math yn marw o heintiau'r ysgyfaint yn y cyfnod cynt. Pan ddaeth adnabyddiaeth o Ffibrosis Systaidd o'r diwedd, nid oedd modd i'w drin o gwbl am rai blynyddoedd, hynny yw, hyd darganfyddiad a datblygiad y cyffuriau gwrthfotig. Er hynny, mae triniaeth wedi ehangu'n araf deg ac erbyn heddiw, er ans adwaenwn y gwall gwreiddiol, gallwn drin yr afiechyd yn dra effeithiol ond mae'n amodol bod y plant yn dod ymlaen yn ifanc.

Mae triniaeth effeithiol yn golygu gwaith dibaid ar ran yr ysbytai, y cyfryngau cymdeithasol ac yn enwedig y rheini.

Mae'r baich ar y fam yn frawychus o drwm gan ei bod yn gorfod arolygu a pharatoi ymborth priodol, rhoddi llawer mathau o gyffuriau gwahanol yn brydlon, a chyflawni therapi corfforol i'r plentyn o leiaf ddwywaith bob dydd i glirio fflem o'r ysgyfaint. (Mae'r fam hon hefyd yn gorfod gofalu am ei gŵr, ei thŷ, a'r plant eraill).

O ba ddiddordeb, tyeb, yw'r materion hyn i rai nad ydynt yn perthyn i blant a Ffibrosis Systaidd? Fe all yr afiechyd amlygu'n ddi-rybudd yn rheulu bob un ohonom yn ddi-eithriad; mae un o bob ugain ohono yn cario'r enyn ac 1 briodas o bob 400 yn cysylltu dau gludydd. Mae'r ymchwil a wneir yn y maes yma'n ehangu'n dealltwriaeth o heintiau'r ysgyfaint yn gyffredinol ac yn gwella ein modd o drin gwallfaethiad mewn plant nad oes Ffibrosis Systaidd arnynt.

Corfforaeth dyngarol cofrestredig, sef Ymddiriedolaeth Ymchwil Ffibrosis Systaidd, sydd yn meithrin ymchwil i'r afiechyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn codi arian drwy ymdrechion gwirfod-

dol llw o gymwynaswyr drwy'r wlad. 'Rwyf fi fy hunan wedi derbyn arian yn gyson er budd fy ymchwil personol yn y maes hwn ers 1972. Gallaf sicrhau'r darllenwr nad yw'r Ymddiriedolaeth yn or-hael gyda'r arian; ni wnaiff roddi arian heb dderbyn cais manwl sydd yn cynnwys rhaglen o waith safonol. Mae'n orfodol ar yr ymgeisydd i ddynodi problem a cynnig cyfundrefn addas i'w datrys. Yna, wedi derbyn y rhodd (a honno wedi'i chofnodi'n fanwl) rhaid iddo anfon adroddiad ysgrifenedig o'i waith ar ddiwedd bob blwyddyn a rhoi darlith ar ei waith o flaen y gweithwyr eraill yn y maes mewn Cynhadledd bob dwy flynedd.

Mae manylion pellach am yr afiechyd ac am waith yr Ymddiriedolaeth i'w cael ar ofyniad gan: **The Executive Director, Cystic Fibrosis Research Trust, 5 Blyth Road, Bromley, KENT. BR1 3RS**

'Rwyn erfyn ar y darllenwyr i gefnogi'r achos hwn. Mae cysgod Ffibrosis Systaidd yn pwyso'n drwm iawn ar filoedd o gartrefi drwy'r wlad; nis gallwn ddileu'r afiechyd yn llwyr heb ddatrys natur y gwall gwreiddiol. I ddehnnogli'r gwall, rhaid canlyn ymlaen â'r ymchwil drwy'r wlad a thrwy'r byd - a mae arnom eisiau cymorth i wneud hyn.

Bydd Dr Fraser Williams yn darlithio ar Haint yr Ysgyfaint yn y gynhadledd Ryngwladol yn Nhoronto, Canada, mis Mai nesaf.

DINORWIG

COFION - Anfonwir cofion at Miss Nora Williams, Padarn Stores, Fachwen, sy'n derbyn triniaeth feddygol yn Ysbyty Dinbych, Brysied wella.

MARW - Bu farw Miss Annie Jones, 6 Bro Elidir yn 81 mlwydd oed ar Ragfyr 18 y llynedd. Estynnir cydymdeimlad â'i chwaer Miss Salome Jones, 6 Bro Elidir a'i chwiorydd yn Lerpwl, a hefyd y cysylltiadau teuluol er ill.

CROESO ADREF - Daeth Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian adref o Ysbyty St Thomas, Llundain, lle bu am gyfnod yn cael triniaeth llawfeddygol. Drwg deall wedi ysbaid adref iddo orfod fynd am driniaeth pellach i Ysbyty Môn ac Arfon. Gwellhad buan iddo.

ANRHEGION NADOLOG - Gwerthfawrogwyd yn fawr gan yr Henoed anrhegion Dolig a roddwyd iddynt gan aelodau y Clwb Ieuencid. Diolch yn fawr.

CANU CAROLAU - Nos Iau, Rhagfyr 20 llynedd, yn Eglwys Sardis (B) bu gwasanaeth o ganu carolau dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol Undebol. Llywyddwyd a threfnwyd y rhaglen gan y Parch Ifor L. Williams. Cymerwyd rhan gan yr elodau mewn eitemau arbennig.

NOS IAU, IONAWR 10 yn eglwys Dinorwig MC dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol Undebol cynhaliwyd cwrdd gweddi undebol. Llywyddwyd y cyfarfod a'r myfyrdod gan y Parch Ifor L. Williams, a chymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Nos Iau, Ionawr 17, yn y Ganolfan cafwyd sgwrs ddiddorol an y Parch Harri Parri, Caernarfon ar hanes meddygaeth y 'Ddafad Wylt', Olrheiniodd ei hanes cynnar hyd y dyddiau olaf. Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau a llywyddwyd y cyfarfod gan Mr David L. Hughes. Bu trafodaeth gan amryw o'r aelodau. Talwyd diolch gan Mr O.R. Williams.

DYWEDDĪAD - Cyhoeddîr dyweddîad Eric Iolen Williams, unig fab Mr a Mrs R.H. Williams, Tŷ Capel MC Dinorwig, a Muriel Mai, unig ferch Mr a Mrs R.H. Roberts, 22 Ffordd Tanrhiw, Tregarth. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

ANRHYDEDD OBE - Llongyferchir Mr Angus MacDermid, Garth Corrage, Fachwen ar ei anrhydeddu gyda OBE gan y Frenhines am ei waith ym myd newyddiaduriaeth.

Rhoddir darlith yn y Gymraeg ar y pwnc: "Ffibrosis Systaidd - afiechyd etifeddol plant Cymru a gwledydd eraill gan

Dr R. Fraser Williams, MB, ChB, FRCPath
Meicrobiolegydd Ymgynhorol
Ysbyty Plant Booth Hall
Manceinion

am 7.30 pm nos Wener
Chwefror 22, 1980
yn Theatr Seilo, Caernarfon

Cadeirydd: Dr Ieuan Parry

Manylion pellach gan:
Miss Rhiannon James, 35 Stâd y Bryn, Bontnewydd, C'fon 3236.
Mrs Beti ab Iorwerth, 'Alltwn', Bontnewydd, Llanwnda 466.
Mrs L. Griffith, Pand Hwfa Farm, Llanllechid, Bethesda 600344.
Mrs Ruth Jones, 3 Church View, Pentrefoelas.

BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED – Ar Ionawr 18 aeth yr aelodau am eu swper blynyddol i Gastell Cidwm, Betws Garmon. Cafwyd pryd rhagorol a noson ddifyr gyda'r aelodau yn diddori ei gilydd.

CLWB MAMAU – Yng nghyfraod mis Ionawr yn Nhŷ Glas, trefnwyd gormest gan Jackie Jones a Moira Ellis. Pat Jones a fu'n fuddugol yn y gystadleuaeth, gyda Rhian Jones yn ail a Sheila Williams yn drydedd. Rhoddwyd y te gan Margaret Wardle a Jill Harris. Rhoddwyd anrheg y mis gan Helen Roberts ac fe'i enillwyd gan Audrey Roberts.

CLWB PEDWARUGAIN – enillwyd mis Rhagfyr – Rhagfyr 7: 1. Dwywen Owen, 2. O.J. Williams, 3. Margaret Jones. Rhagfyr 14: 1. Jennie Hughes, 2. Dilys Evans, 3. Len Parry. Rhagfyr 21: 1. Maldwyn Jones, 2. Mike Collins, 3. Aled Green. Rhagfyr 28: 1. Glyn Owen, 2. Charles Jones, 3. Sue Jones.

Bu swper Nadolig y Clwb yng ngwesty'r Royal, Caernarfon ar Ragfyr 15, pryd y dosbarthwyd anrhegion blynyddol y clwb i 50 o'r aelodau. Cafwyd swper rhagorol a threiliwyd noson ddifyr yn dawnsio ac yn gwrandao ar yr 'Outlaws'.

Bydd cyfarfod blynyddol y clwb i'w gynnal ar Ionawr 29, pryd yr etholir pwyllgor am 1980 a threfnu rhaglen am y flwyddyn. Mae noson dathlu Gŵyl Dewi Sant eisoes wedi ei threfnu yn Nhŷ Gwyn, Pentrefelin ger Cricieth ar nos Sadwrn, Mawrth 1 gyda swper cyw iâr a disgo. Cysylltwch gyda'ch casglwyr ynglŷn â hyn mewn digon o amser.

Annwyl Olygydd,

Carwn ofod yn yr Eco i sôn am yn amser y torrwyd coed Voel Rhiwen.

Yn ystod rhyfel 1914-18 yr oedd. Fel un o blant pentre Pontrhythallt bûm i a fy ffrind pennaf, sef y diweddar Ivor Green, Pandy gynt yn chwarae triwari lawer gwaith ac yn mynd efo traction a threilar i fyny i'r Rhiwen. Tudor o'r Bermo oedd perchennog y traction, ac yr wyf yn cofio y byddem yn codi dŵr wrth fynd i fyny ac i lawr mewn afon fach cyn cyrraedd Groeslon Racca.

Byddem fel hogia' yn rhoi help llaw i lwytho y wageni yn y Station.

Yr wyf wedi gadael y pentre ers cryn hanner can mlynedd, ond mae fy nghof o'r amser yn ddigon pendant.

Yr eiddoch yn gywir,

Jos. Hughes,

*(gynt o Bodifor, Rhyddallt Terrace),
45, Victoria Road,
Rhyl, Clwyd.*

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

Ni ddaeth newyddion i law am neb yn wael neu yn yr ysbyty yn ystod y mis a aeth heibio, ond os oes unrhyw rai yn cwyno, dymunwn iddynt adferiad llwyr a buan.

CWRS PRESWYL I GYFEILYDDION

Y Coleg Normal
Bangor

Dydd Sadwrn a Dydd Sul,
Chwefror 23 a 24, 1980

Cyfarwyddwr y Cwrs:
Peter Crosser
y cyfeilydd ac unawdydd enwog

Cotau preswyl yn cynnwys tâl am y
Cwrs: £13.50

Costau di-breswyl yn cynnwys tâl y
Cwrs: £9.00

Er mwyn cynyddu'r nifer o gyfeilyddion piano cymwys sydd ar gael yng Ngogledd Cymru gogyfer â chyngherddau, eisteddfodau ac ati, cynhelir Cwrs ymarferol penwythnos fydd yn canolbwyntio ar y grefft o gyfeilio. Gwahoddir cyfeilyddion profiadol yn ogystal â rhai sydd efallai heb brofiad o gyfeilio, ond sy'n awyddus i ddysgu'r grefft, i anfon am fanylion pellach ar unwaith at:

Cyfarwyddwr,
Cymdeithas Geflyddydau Gogledd
Cymru,
10 Tŷ Cae Ffynnon,
BANGOR,
Gwynedd.
Ffôn: Bangor 53248

LLYFRYN O HELP I CHI

A ydych â diddordeb mewn bod yn aelod o Gymdeithas sy'n hel stampiau neu a ydych yn un sydd â'ch bryd ar dynnu lluniau? Os felly, mae gan Lyfrgell Arfon-Dwyfor yn ei llyfrgelloedd yr union beth sydd eisiau arnoch. Mae newydd gyhoeddi llyfryn defnyddiol iawn sy'n rhestru Cymdeithasau o bob math – o Karate a Chlybiau Chwaraeon i Glybiau Merched a Chymdeithasau 'Multiple Sclerosis.'

Gall y llyfryn hwn fod o ddefnydd mawr hefyd i bobl sydd newydd ymsefydlu mewn ardal gan y rhestrir ynddo o dan enw tref neu bentref y cyfan o'r Cymdeithasau neu Glybiau a gynhelir yno.

ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL 1963



Dyddiau cynnar yr ysgol newydd (athrawon) (wedi symud Ionawr 1963). Llun gan Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed, Waunfawr.

Plant Ysgol Brynrefail heddiw — ydych chi'n 'nabod rhai ohonyn nhw?



PWY SY'N GWYBOD?

A all unrhyw un rhoi eglurhad i mi i'r darlun yma. Wedi ei ysgrifennu y tu ôl iddo mae yn dweud mai Seindorf Arian Bethesd ydynt. Ond 'rywf yn dweud mai Seindorf Arian Deiniolen ydynt. 'Rwyf yn adnabod 3 sef: J.P. Morris (Hen Breis), J.E. Williams (Jac Daf) ac O. Evans (Owen Ifan, Scotch). Mae'r darlun wedi ei dynnu yn y flwyddyn 1914 ym Methesda.

W.O. Williams

CYMDEITHAS Y Ddrama Gymraeg Coleg y Brifysgol, Bangor

yn cyflwyno

I GWMNIAU GWLEDIG

Comedi newydd W.S. Jones (WIL SAM)
Cynhyrchydd: William R. Lewis

Theatr Gwynedd
am 7.30

Mercher-Sadwrn
Chwefror 13-16, 1980

Tocynnau £1.00 (gostyngiad i bartïon o 10 a mwy)
i'w cael o'r Theatr (BANGOR 51708)

CÔR MEIBION DYFFRYN NANTLLE

BETH AM ALAW GAN YR HOGIA
BETH AM NOSON GYDA'R GORA?

Am wledd o ganu yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Nantlle
(30 o aelodau) cysylltwch ag:

Aled H. Owen, 'Berwynfa', Ffordd y Sir,
Penygroes, Gwynedd.

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

DEINIOLEN

PÊL-DROED - Enillwyr Cwpan Bernard Wardle am y drydedd waith: D.J. Brailsford, Gareth Owen, Ceris Jones (Llanrug), Llion Evans (capt.), Kevin Jones, John Williams (Bethel), Barry Jones (P'waun), Karl Williams, Euryan Owen, Trebor Thomas a Malcolm Allen, Barry Williams, Adrian Williams, Dilwyn Williams ac Arwel (P'waun).

Diolch i Mrs Clarice Roberts y 'Bull' ac i bawb am gefnogi'r tîm ifanc.

Syndod yw bod buddugoliaethau o'r fath yn dyfod i Ddeiniolen o hyd, a hwythau heb gae yn y pentref!

Da iawn hogia' a phob hwyl yng nghystaldeuaeth Cynghrair Gwyrfaei y flwyddyn yma eto.

CAPEL DISGWYLFA - Ar Ragfyr 20 mwynhaodd plant y capel eu te parti Nadolig, pryd yr ymwelodd Siôn Corn a rhoi anrheg o arian i bob un o'r plant. Cafwyd chwaraeon ar ol y te. Sul, Rhagfyr 23 perfformiwyd Drama'r Geni gan blant yr Ysgol Sul. Ionawr 2 teithiodd llawer o blant ac oedolion y capel i Theatr Gwynedd a mwynhawyd y pantomeim 'Mwstwr yn y Clwstwr.'

CYMDEITHAS POBL IEUEINC CEFNYWAUN - Y mae aelodau'r Gymdeithas yn brysur y dyddiau hyn yn casglu arian tuag at bwrcasu organ drydan i'r capel. Eisoes chwyddwyd y gronfa i dros £250 gyda chymorth taith gerdded a bore goffi. Yn awr fe gysylltir ag aelodau presennol a chyn aelodau ynghyd â chyfeillion Cefnywaun yn eu gwahodd i gyfrannu'n ariannol tuag at y gost. Os dymuna rhywun nad yw wedi cael gwahoddiad trwy lythyr gyfrannu, anfoner y rhodd i drysorydd y Gymdeithas Mr David Williams, 20 Pentre Helen.

PWYLLGOR BRENHINES Y CARNIFAL - Daeth yn amser unwaith eto i ddewis Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd. Dewisir y Frenhines a'r 'Principal Boy' o blith genethod 12 oed a than 14 oed ym mis Gorffennaf 1980. Dewisir dwy forwyn 9 oed a than 12 oed, ac hefyd dwy forwyn 7 oed a than 9 oed yng Nghorffennaf 1980. Bydd cyfle i fechgyn 6 oed gael eu dewis yn weision.

Dylid rhoi enwau'r plant ynghyd â'r tal o 50 ceiniog i un o chwiorydd Pwyllgor Brenhines y Carnifal erbyn 14 Chwefror 1980. Dewisir y Frenhines a'i Gosgordd am 8 o'r gloch nos Wener, Chwefror 15 pryd y cynhleir Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi. Bydd Noson Goffi yn dechrau am 6.30 o'r gloch a'r tâl mynediad yn 25 ceiniog.

Pwyllgor Brenhines y Carnifal am 1980 yw: Cadeirydd, Mrs Gloria Thomas; Trysorydd, Mrs Rhian Jones; Ysgrifennydd, Mrs Joyce Jones; Gohebydd, Mrs Miriam Lewis.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Annie Williams, 3 Y Bwthyn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd y mae wedi ei gael tra buyn yr ysbyty ac ar ôl dod adref, carai ddiolch yn arbennig i staff ysbyty Broadgreen Lerpwl am y gofal arbennig a gafodd yno.

Dymuna Mr Gwyn Pary, Bro Dawel a Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig ddiolch yn fawr i'w teuluoedd ac i'w ffrindiau am yr anrhegion a'r llw cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddïad.

Dymuna Mr Myfyr Lewis, 27 Rhydfadog ddiolch yn gynnes i'w deulu, ei gyfeillion a'i gymdogion am eu caredigrwydd a'u cymorth parod yn ystod ei waeledd yn ddiweddar.

Hefyd dymuna ddiolch am y llw

cardiau a rhoddion a dderbyniodd, a hefyd diolch i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor am eu gofal tyner ohono.

Câr Paul a Mark Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag atynt tra roeddent yn derbyn triniaeth lawfeddygol, y naill yn Ysbyty Môn ac Arfon, a'r llall yn ysbyty Alder Hey Lerpwl.

Câr Pwyllgor Brenhines Carnifal Deiniolen ddiolch i bawb am eu cymorth, yn iard yr ysgol ar Ragfyr 15.

I ddynion y pwyllgor, a gwŷr i ferched y pwyllgor, i Mr Alwyn Williams, Mr a Mrs O.H. Jones, Mrs Clarice Roberts, Seindorf Arian Deiniolen a Mr Foster, Mr Eifion Williams a hefyd i'r hen Siôn Corn am ei ymweliad ac yntau mor brysur.

Dymuna Mrs E.M. Jones, y Llythyrdy, Clwt-y-bont ddiolch i bawb a gyfrannodd i Gronfa Nadolig Plant Methedig yn y siop eleni eto. Caed cyfanswm o £7.

MARW - Dydd Sadwrn, Rhagfyr 22 yn 82 oed bu farw Mrs Jane W. Jones, Rhianfryn, Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont.

Bu'r angladd preifat ddydd lau, Rhagfyr 27 yng Nghapel Disgwylfa a mynwent Macpelah. Gweinyddwyd gan ei gweinidog y Parch Trefor Lewis.

Y SEINDORF - Llongyfarchiadau i'r Seindorf am ennill yn y rhagbrofion cyntaf ar Radio Cymru, am y teitl Seindorf Gorau BBC Cymru. Yn y rownd nesaf bydd y band yn chwarae yn erbyn un o fandiau gorau Cymru sef Parc a Dâr, ac fe geir glywed y gystadleuaeth yma ar y Radio ar Chwefror 10 rhwng hanner awr wedi deg a chwarter wedi un ar ddeg, fore Sul.

PÊL-DROED - Diolch i Twm Bethel am ei farddoni dros y tîm. Mae hyn yn nodi'r fuddugoliaeth ar Ragfyr 26 yn erbyn Cae Glyn yn rownd derfynol Cwpan Bernard Wardle.

TIM PÊL-DROED DEINIOLEN

I dîm Deiniolen heddiw
Canmoliaeth gorau 'rioed,
I'r ieuencid sydd yn cicio
Ar lawer cae pêl-droed.
Maent wedi ennill deirgwaith
Y Gwpan yn eu tro,
A churo hogiau Gwyrfaei
Yn holl bentrefi bro.

Nid ydyw corwynt gaeaf
Na heulwen braf yr haf,
Yn torri calon hogiau
Wrth gidio yno'n braf.
I Elfed y Rheolwr
Boed llawer dydd i ddod
A dysgu yr hen hogiau
Nes cyrraedd uchaf glod.

Mae'r hogiau ar eu gorau
A neb yn tynnu'n ôl,
Nes bydd y bêl yn clecian
Yn rwydau yr hen gôl.
Boed iddynt fod yn bennaf
A'u henwau drwy y Dre
Ac felly rhowch Ddeiniolen
'I'r hogiau bach 'Hwre'.

Twm Bethel

SEFYDLIAD Y MERCHED - Ym marwolaeth Mrs J.W. Jones, Rhianfryn, yn ystod gwyliau'r Nadolig, fel gollodd y Mudiad un o'i haelodau mwya eiddgar, a Changen Deiniolen hen aelod selog a gweithgar. Ymunodd a'r Gangen yn y blynyddoedd cynnar wedi sefydlu Cangen yn Deiniolen ym 1922. Bu'n Drysorydd am flynyddoedd lawer

gan wneud ei gwaith yn ddiwyd a gofalus. 'Roedd yn ymhyfrydu yn ei swydd. 'Roedd yn fedrus iawn gyda gwaith lledr a byddai bob amser yn barod i ddangos i eraill yn y Dosbarth sut i gario ymlaen a'u gwaith. Un yn caru'r encilion a wil oedd Jan Winnie, ond un y gallech bob amser ddibynnu arni i gario allan unrhyw wiath angenrheidiol yn y Gangen. Hyd nes i'w iechyd dorri i lawr, byddai'n selog ymhob cyfarfod a phwyllgor. Ychydig o'r hen griws sy'n aros bellach a chwithdod yw colli un ohonynt ond y mae cofion hyfryd am yr hen aelodau yn aros o hyd. Talwyd teyrnged iddi gan Lywydd presennol (Mrs Eirlys Williams) yn y cyfarfod diwethaf o'r Gangen.

LLONGYFARCHIADAU - calonnog i Mr John Evans, Maes y Dref, Clwt-y-bont (Johnnie'r lard) am gael dwy wobr gyntaf, un yn Eisteddfod Bwlchtocyn ger Abersoch am Ysgrif a'r llall am Soned yn yn Eisteddfod Llanrhaeadr ym Mochnant.



Dyma lun rhai o blant Ysgol Feithrin Deiniolen yn mwynhau eu parti Nadolig.

Y GWANWYN

(Soned fuddugol Eisteddfod Llanrhaeadr)

Yn dawel a digyffro fel erioed, Ymwithiaist drwy y tyndir du a'i lain, A'th byntil yn addurno dail y coed; Mae gwefr dy ddyfod yn y bwthyn llwm,

A'th lesni yn trawslwio lawnt y plas; Daeth sioncrwydd eto'n ôl i lan a chwm,

Agwefr y deffro ymhob blewyn glas; Daeth blodyn bach yr eira eto'n ôl, A'r sypiau melfed ar yr helyg gwyrdd, Y dlws friallen fach ar glawdd a dôl, A charn-yr-ebol acw'n llonni'r ffyrdd: Daw'r llw adeiniog i bob perth a llwyn A'u ceinciau o fwynhad i'r gwanwyn mwyn.

HYSBYSRWYDD - Cynhelir cyfarfod arbennig o Gymdeithas y Co-op nos Fercher nesaf, Chwefror 6 am 7.00 o'r gloch yn Ysgol Gwaun Gynfi. Taer erfynnir ar i'r holl aelodau bresenoli eu hunain yn y pwyllgor pwysig hwn.

EVANS VEHICLE BODY REPAIRS CLWT-Y-BONT


Ffôn: Llanberis 611

am drwsio tolciau, weldio, spreio,
atgyweirio wedi damwain, ac ati.
CEIR AIL-LAW AR WERTH

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR



Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Degawd newydd dda i chi i gyd. Mae'n debyg eich bod wedi hen 'laru ar glywed y gair degawd bellach hefyd. Bu'r cyfryngau a'r papurau yn ein blino hyd at syrffed wrth edrych yn ôl dros y deng mlynedd a fu.

Sut le fydd 'ma 'mhen deng mlynedd arall ys gwn i? Pwy fydd yma 'mhen deng mlynedd?

Ys gwn i a fyddwn ni'n mynd i'r 'Steddod Genedlaethol yn Awst 1990? Faint fydd pris petrol? Fydd 'na betrol? Fydd helynt y bedwaredd sianel wedi'i setlo tybed? Bron na dd'wedwn i mai'r unig ffordd i achub yr iaith fyddai i bob un ohonom wneud i ffwrdd â'n setiau teledu, ac ailddechrau sgwrsio a thrafod a chymdeithasu ar ein haelwydydd unwaith eto. Mae'r bocs yn y gornel wedi mynd i lwyr reoli'n bywydau a dydi plant heddiw ddim yn cael y cyfle i glywed siarad a sgwrsio ar eu haelwydydd. Yn wir, mae 'na amrywobiant sy'n byw ym mro'r Eco na chlywnt nemor ddim Cymraeg ond yn yr ysgol. O amser dod adre o'r ysgol hyd amser gwely - y bocs sy'n hawlio'r aelwyd.

Fyddai dim angen ymwrthod â thalu'r drwydded petaem yn penderfynu gwneud heb y bocs - ond mae'r awgrym hwnnw'n ynyd reit siŵr gan fod y bocs wedi llwyddo i hawlio'n haelwydydd bellach, a fedrwn ni ddim gwneud hebdo, gwaetha'r modd.

I mi, sefydlu Eco'r Wyddfa, a'r papurau bro eraill ledled Cymru oedd y digwyddiad pwysicaf yn ystod y degawd a fu. Ychydig iawn sy'n prynu'r cylchgronau cenedlaethol, mae'n wir, ond mae miloedd yn derbyn y papurau bro, ac yn cael blas ar eu darllen.

Rhaid gofyn hefyd, faint fyddai'n trafferthu i brynu'r Eco onibai ei fod yn cael ei ddosbarthu o ddrws i ddrws? Diolch am ffyddlondeb y dosbarthwyr.

Chwi gofiwch i mi wneud cais am barodïau y tro diwethaf. Siomedig iawn fu'r ymateb. 'Rwy'n gwybod fod gan amryw ohonoch barodïau y byddai darllenwyr yr Eco yn cael mwynhad a phleser o'u darllen.

Diolch i chi, Gwyneth, 12 Tremeilian, Brynrefail am i chwi anfon cerdyn Nadolig i mi a'r pennill bach hwn o'ch gwaith chi eich hun arno:

O Robin Goch annwyl
O Robin Goch tlws
Sy'n disgwyl am damaid
Ar riniog y drws,
Mae Mam yn un galed
Tuag atat un bach
A digon o wenith
A haidd yn y sach.

Diolch i chwithau, Enid Jones, Bryn Gelli, Tal-y-sarn. Nid yn unig am eich cyfraniadau ffyddlon, ond hefyd am ichwi anfon rhodd at gynnal yr Eco. 'Rydych chi'n edrych ymlaen bob

mis am i'r Eco gyrraedd Tal-y-sarn fel y dengys eich cerdd:

Eco'r Wyddfa

Deuaist eto 'Eco'r Wyddfa
Doi o fis i fis;
Edrych 'mlaen yr wyf amdanat
Dim ots beth yw'r pris.

Mae pob rhifyn yn rhagori
Ar yr un o'r blaen;
Hen wynebâu bron yn angof
Wela'i o fy mlaen.

Pam y deui 'Eco'r Wyddfa'n
Fisol at fy nôr?
D'wed, a weli dithau golli
Dyddiau na ddaw'n ôl?

Diolch i chi hefyd Enid am y parodi, a'r llythyr sy'n egluro pam y'i cyfansoddwyd. Byddai'n dlawd iawn ar Llannerch y Llenor, heb rai fel chi.

Ym 1950 gwnes 'Barodi' yn seiliedig ar 'Wil yng ngharchar Rhuthun', ond dyma'r stori a'm symbylodd i wneud hyn.

Aeth Wilfred Jones, awdur y llythyr y soniaf amdano uchod, i weithio i Stafford, ac yno syrthiodd mewn cariad â merch Warden y carchar - ac wrth gwrs dyna destun cân yn cynnig ei hun ar unwaith. (Carwn ddweud wrth fynd heibio, i Wilfred briodi'r ferch - felly gwn na fydd yn flin ganddo os ymddengys y penillion yn yr Eco. Mae Wil yn dal cysylltiad o hyd â'r hen gyfeillion yn y Fachwen. Arferem gyfarfod ym Mron-y-Graig bob wythnos, ac yno y byddai darllen a thrin a thrafod y penillion a chael pwt o gân ar yr 'organ' - cwith am yr hen amser.

yn gywir, Enid Jones

Mae Wil yng ngharchar Stafford
Mewn cariad dros ei ben -
Heb feddwl fawr am undyn
Yn B'esda na'r Fachwen.
Mae'r cariad yn bwysicach
O lawer, welwch chwi
'Does neb ar wyneb daear las
Yn debyg i Miss Tee.

Mae Wil yng ngharchar Stafford
Ymhell o fod yn drist,
Pa waeth am ddannedd gosod
Cânt aros eto - fis!
Rhaid myned draw i Gloucester
I weithio ar y rêl,
Ond dyna hyfryd fydd - medd Wil
Cael dod yn ôl i'r Jêl.

Mae Wil yng Ngharchar Stafford,
Ond nid yw'n malio dim
Caiff fynd a dod yn hollol rydd
Heb ofni cerydd llym
Mae'r warden a'r hen 'fodan'
Yn hollol yn gytun
Fod rhyddid llwyr i Wilfred Jô
Gael priodi Miss Eileen.

Rydwi newydd sylweddoli. Os caf fyw i weld diwedd y degawd mi fydda'i wedi ymddeol. Dewcs, os gwn i faint fydd fy mhensiwn i pryd hynny.

Hwyl fawr, Selwyn

AMSER MAIT



ATHRAWON YSGOLY CYNGOR, PENISARWAUN 1910

O'r chwith i'r dde Mr Evans, Mis L. Foulkes, Mis Mary Maddock Jones, Mr J. Beuno Jones (y prifathro); Miss Emily Whiteside; Mrs Evans; a phwy . . . ? A all unrhyw un ohonoch enwi'r athrawes ar y dde? Diolch i Mrs C.E. Roberts, Hedsor Villa, Llanrug.



TÎM PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL
1921

Rhes ôl: Robert Roberts (Bob Bont); Meredydd Ffoulks (Mered Bryn Derw Brynrefail); Trebor Prosor Roberts (Penisarwaun); Morgan Thomas (Brynrefail); Wil Ffoulk Roberts (Llanberis); Owen Williams (Deiniolen). Rhes ganol: Robert Gillespie (Llanberis); G. Madog Ellis (Brynrefail); Ted Radley (Llanberis). Rhes flaen: William Thomas (Brynrefail); Jack Roberts (Llanberis); Glyn Owen Griffiths (Llanberis). Llun oddi wrth Mr G. Madog Ellis, Whitcroft, Pwllheli (Brynrefail gynt).



Wedi gweld Côr Eglwys Llandinorwig, dyma ddosbarth Ysgol Sul yr Eglwys tua 60 o flynyddoedd yn ôl:

Rhes gefn: (chwith i'r dde): Robert Williams, Bontfawr, Rolant Price, Y Fron, David Evans, Gallt y Foel (tad J. Evans, Iard), Wm. Evans, Pwllbudur, Hugh Davies, Clytiau Teg. Rhes flaen: (chwith i'r dde): Frank Parry (Capten neu Cariad yw), Thomas Morris (Gweithiwr ar y Ffordd), Robert Roberts, yr athro (Rbt. Robts. Salvation) Tan y Ffordd, Clwt-y-bont, ?, Caradog Place (fedr rhywun enwi?), Thomas Jones (Tomi Cae Dafydd). Llun: John D. Evans, Iard, Clwt-y-bont.

TH YN ÔL



Diolch yn fawr i Mr W.M. Hughes, Rhiwen, Deiniolen am anfon y llun hwn o hen fand Cynfi, Ebeneser (Deiniolen erbyn hyn) ynghyd â'r wybodaeth inni. Mr Hughes oedd yr arweinydd a thybia mai ef yw'r unig un ohonynt sy'n dal yn fyw.

Un o gerrig milltir pwysigaf y band oedd dod yn gydradd gyntaf â'r enwog 'Nantlle Royal' yn ystod undegau y ganrif hon.

Collwyd nifer o'r aelodau yn y Rhyfel Mawr 1914-18. Sonia Mr Hughes fel y bu iddo'n ddamweiniol weld bedd Robert O. Williams (y trydydd o'r chwith yn y rhes uchaf) yn Al ert, Gwlad Belg.



YSGOL BRYNREFAIL 1919-20 TRYDYDD DOSBARTH
Blwyddyn Olfa Tystysgrif Leiaf y Bwrdd Canol Cymreig
(Junior Central Welsh Board)

Y rhes gefn: Llywelyn Hughes, Gwilym D. Williams, O.M. Roberts, Bleddyn Ll. Griffith, Owen Williams, Tom Roberts.

Yr ail res: Glyn O Griffith, Gordon Parry, Jn. Lloyd Woodhouse, Robt. Roberts, W.F. Roberts, Harri Jones, Ted Radley, Herbert Thomas.

Rhes gefn y genethod: Gwyneth Roberts, Enid Mabel Thomas, Irene B. Jones, Kate Jones, Annie Alltwen Evans, Eleanor Jones, Gracie Hughes.

Y rhes gefn: Sarah Dilys Jones, Ida Thomas, Morfudd Jones, Doreen Evans, Mary A. Williams, Mary E. Jones.

GAN MLYNEDD YN ÔL

Pigion o Ddyddiadur William Morris
Bron Fuches am 1880

Ion 2: Claddu y Parch John Jones, Sardis yn 59 oed.

Chwef 27: Y briodas gyntaf yng nghapel Dinorwig sef Dr Jn Davies, Penrallt ac Ann Williams, Ty'n y Gadlas, Dinorwig. Mawrth 8: Brwydr y Bwrdd Ysgol. Deg yn sythu am le saith.

Mawrth 22: Bachgen 2 flwydd oed Eb Rowland, Vachwen yn marw mewn llestr golchi tra bu ei fam yn taenu dillad.

Mawrth 25: Stopio y Chwarel heno tan dydd Mawrth nesaf.

Ebrill 6: Buddugoliaeth Mr Watkin Williams ar Mr Pennant am gynrychiolaeth Sir Gaernarvon. Mwyafri 1097.

Mai 14: Damwain angeuol yn Menai Bridge i Mr Rowl Parry, 25 oed, mab Mr Robert Parry, Blue Peris, Dinorwig gynt (Prif Reolwr y Chwarel).

Meh 4: Marw Mr Robert Parry, Menai Bridge yn 67 oed (gynt Blue Peris).

Medi 8: Codwm angeuol yn Gilfach Ddu i

Thos Morgan, Brithdir, Llanberis.

Medi 10: Agor eglwys newydd Dinorwig (St Mary). Esgob Bangor yno'r bore.

Hyd 21: Dyrnod angeuol gan lwmp oddiwrth ergyd yn y Garet i John mab Richd Hughes (Cig Bras). Marw yn yr hosbital mewn canlyniad Oct. 27.

Hyd 24: Robt C. Jones, Clogwn Gwyn yn ymadael yn ffurfiol o Dinorwig ac yn ymuno ar eglwys wladol yn St Mary.

Tach 30: Polio y foters am y sir.

Rhag 1: Cyhoeddi canlyniad yr etholiad am Sir Gaernarfon, Mr Rathbone mwyafrif ar Mr Nanney 1029.

Rhag 9: Damwain angeuol yn Twll y Dyffryn i Rt Ths Rowland, Tan y Graig, 38 oed a Wm Edward, Erwbian, Bethel, 18 oed ar iddy, t danio powdwr yn y Brig. Ymollyngodd yr hen domen oedd ar y top, gan ddwyn y ddau anffodus gyda hi i'r dyfnder o tua 40 llath. Bu cannoedd o ddynion am bum awr yn gweithio yn galed i glirio yr spurrial er cael yr anffodusion.

H.T.

Agor

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ffiniau'r Gorffennol

'HEN BOCER BACH GLOEW FY NAIN

Mi hoffwn wybod pa le y mae "hen bocer bach gloew fy nain" yn cael ei gadw heddiw. Mary Williams, Henfelin, Nefyd, oedd "Y Nain" y cyfeirir ati yn yr hen gân boblogaidd. Byddai llawer iawn o ganu arni ddechrau'r gnariff hon. Tybed bod yr hen bocer yn cael ei gadw o hyd gan orwyr i'r Nain y cyfeirir ati yn y gân, sef Cadben Griffith Jones, Langdale, South Beach, Pwllheli. Yr oedd ef yn fab i Cadben Gruffydd Jones, "Pegasus" nefyd, wŷr i Mary Williams, fy nain.

Fel hyn yr oedd yr hen gân yn darllen yn y gwreiddiol. I'w chanu ar yr alaw 'Old Derby'

Mor felus adgofio y dyddiau,
Cyn teimlo na gofid na cham,
Pan oeddwn ger Nefyn yn blentyn
Cysurus yr aelwyd fy mam:
Pan oeddwn yn fachgen penfelyn,
A dwy foch goch iachus a chain,
Mor hoew a llawen y byddwn
Yn rhedeg i fwthyn fy nain.

'Nol cyrraedd y bwthyn gwyngalchog,
Cyfarchwn y teulu yn hy,
Ac yna awn ati i chwilio
A chwalu holl ddodrefn y tŷ:
Peth pennaf a ddenai fy sylw,
A'r harddaf o'r cwbl o'r rhain,
A'r gorau i chwarae fy nghampiau
Oedd pocer bach gloew fy nain.

Pan gaffwn y pcer i'm dwylau
Awn allan i gasglu fy nghâd,
A chyn pen ychydig funudau
Mi ddenwn holl blantys y wlad:
Ystyriwn fy hun megis brenin,
Yn arwain fy myddin fach gain,
Gan ddal fy nheyrnwialen i fyny -
Hen boced bach gloew fy nain.

Dwy flynedd ar bymtheg a deugain
Bu'r pocer yn loew a glan,
Yn sefyll fel milwr dewr-galon,
Yn ffyddlon wrth ochr y tân:
Mae nain heddiw'n gorwedd yn dawel
A'r pocer sy'n fychan a main
Gan gruffydd i gofio amdani -
Hen bocer bach gloew fy nain.

Tra byddaf fi bwy ar y ddacar,
Cei di, yr hen bocer, dy ran:
Os collais fy llon a fy eiddo,
Mi'th ddygasit di'n ddiogel i'r lan.
Ffyddlondeb sy'n ddrych ar y wyneb,
A miwsig nefolaidd yw'th sain:
p'le bynnag y byddwyf boed dithau -
Hen bocer bach gloew fy nain.

E. Edmund Williams (Bangorfab)
Gatehouse, Llanllechid.

YR HANES 1869

Fel hyn y dywedai awdur yr hen gân, sef Bangorfab hanes cyfansoddi'r gân.

"Cyfarfyddais â Mr Gruffydd Jones, Cadben, y 'Pegasus' ac yn ddiweddarach Cadben y 'Daniel'. Ye oedd Gweirydd ap Rhys hefyd yn y cwmni a digwyddodd hynny ym 1869. Gofynnodd Cadben Gruffydd Jones a fuasai Gweirydd ap Rhys neu fi yn cyfansoddi cân iddo ar y testun 'Hen bocer, ei nain' a dywedodd yr hanes wrthym fel hyn. Pan yn blentyn bychan arferwn fynd bob dydd i dŷ fy nain yn Nefyn, a'r peth cyntaf a dynnai fy sylw oedd hen bocer fy nain oedd bob amser wrth ochr y tân. Byddwn yn cael pleser mawr gyda hwn, drwy wneud pob math o gampiau ag ef, ac fel y deuthum yn dipyn o hogyn i fynd allan enillais gyfeillion bychain fel fy hunan. Wedyn arferwn gasglu y plant ynghyd gan eu gorymdeithio drwy y dref, a'u harwain gyda'r pocer fel teyrnwialen ar fy ysgwydd. Bu farw fy nain, a rhannwyd ei ddodrefn rhwng y teulu, a'r unig beth

a chwenychais i oedd yr hen bocer. Yr oeddwn erbyn hyn yn forwr, a chymerais y pocer gyda mi i'r llong fel y trysor gwerthfawrocaf oedd gennyf. Bu yn llongddrylliad arnau dair gwaith, ond bob tro gofalais am ddwyn yr hen obcer gyda mi yn ddiogel i'r lan, er trwy hynny beryglu fy mywyd a cholli eiddo fuasai'r llawer mwy gwerthfawr gan rai pobl ond nid gennyf fi. Y mae'r hen bocer gennyf byth yn annwyl a chysegredig.

Wedi clywed yr hanes, medda Bangorfab, mi gydsyniais a'i gais, a chyhoeddais y gân mewn dau o bri newyddiaduron Cymreig y pryd hynny.

ARALLEIRIAD

Ymddangosodd aralleiriad o'r gân yr 'Y Werin'. Nis gwn pa bryd. Y teitl hon ydyw 'Hen brocer bach gloew fy nain'. (Slwch mai procer ddywedid ond pocer yw'r gwreiddiol). O dan y aralleiriad yn 'Y Werin' y mae enw Ap Glaslyn. Anfonodd Ap Glaslyn yn syth i ddweud mai nid ef oedd e hawdur. Cafwyd gwybda y ddiweddarach mai Pedr Môn yw awdur yr aralleiriad.

HEN BROKER BACH GLOEW
FY NAIN

'Roedd yno deganau i chwareu
A phobpeth i'm cadw yn gu.
A nain hefo'i throell bach yn nyddu,
A phleser yn llanw ei thŷ:
Peth cyntaf a dynai fy sylw
O fewn yr hen fwthyn bach cain
A'r gorau at chwareu fy nghampau
Oedd procer bach gloew fy nain.

Pan gaffwn y procer i'm dwylau

Awn allan i gasglu i'r gâd,
Ac ar ôl ychydig funudau
Mi ddenwn holl blantys y wlad.
Ystyriwn fy hun megis brenin,
Yn arwain fy myddin fach gain,
Gan ddal fy nheyrnwialen i fyny -
Hen brocer bach gloew fy nain.

Dwy flynedd ar bymtheg a deugain
Bu'r procer yn loew a glan,
Yn sefyll fel milwr dewr-galon
Yn ffyddlon wrth ochr y tân:
Gofalai y cyfan o'r teulu
I'w gadw yn gu ac yn gain
A phawb ddoi i'r tŷ fyddai'n hoffi
Hen brocer bach gloew fy nain.

Rhyw ddiwrnod 'roedd teulu'r hen fwthyn

Yn sefyll mewn dychryn a braw
Deallodd fy nain fod hen angau
Yn dyfod a'i gledd yn ei law:
Ac yna gwasgarwyd yr eiddo
Oedd yn yr hen fwthyn bach cain
A'r cyfan sydd gennyd ohono
Yw procer bach gloew fy nain.

Pedr Môn

Enw Pedr Môn sydd wrth y geiriau yn y Solo (Hen Brocer).

Tybed a fedr rywun daflu goleuni pellach ar Hen Brocer bach gloew fy nain a sut y bu i ddwy gân gael eu cyfansoddi ar yr hen brocer."

Tybed a fu dwy nain, un yn Sir Fôn a'r llall yn Nefyn! a dŷu brocer? Byddai'n ddiddorol cael eglurhad.

O GABAN Y CHWAREL

DAMWAIN FAWR 1929

Hanner canrif yn ôl, sef bnawn Llun, Rhagfyr 16, 1929 digwyddodd un o'r damweiniau gwaethaf yn hanes Chwarel Dinorwig.

Mewn cwmp enfawr ym Mhonc Pen Rhydd, lladdwyd tri o chwarelwyr sef Thomas Henry Edge, Tom y Braich, Dinorwig, Hugh Arthur Jones, Llys Gwynedd, Deiniolen a Robert Thomas, Bwlch Gwynt, Dinorwig.

Yn ôl yr Herald Gymraeg, dydd Mawrth, Rhagfyr 24, 1929 newydd saethu tri o'r gloch yr oedd y dynion: "Tanid twll ym Mhonc Pen Rhydd, ac aed drwy'r gorchwyl yn llwyddiannus. Gweithiai pedwar o ddynion yn "y fargen" hon, sef y trancedigion a Mr. Owen Evans, Glyn Afon, Clwt y Bont. Gofalodd y pedwar am beidio a dychlwyd i'r fan lle y gweithient nes i'r cwmp a achoswyd gan y pylor glirio. Yn fuan wedi i'r corn ganu am dri o'r gloch, aeth y gweithwyr ar hyd wyneb y graig ynghrog wrth raffau, i glirio'r cerrig rhydd a'r ysbwiral.

Yr oeddynt bron wedi cyrraedd y gwaelod pan lithrodd rhan o wyneb y clogwyn yn sydyn uwch eu pennau. Cwmpodd tunelli o feini amrywiol ac ysbwriel ar y Mri. Robert Thomas, H.A. Jones, a T.H. Edge, a'u hysgubo gyda hwy, fel lli grymus.

Clywodd y dynion eraill a weithiai yn y gymdogaeth drwy'r cwmp; gollyngasant eu harfau a brysio i oltw y lle."

Cafodd Owen Evans ddihangfa wyrthiol a bu dros ddeugant o ddynion yn cloddio am gyrff y tri arall. Llwyddwyd i ddod o hyd i ddau yr un dydd a daethpwyd o hyd i'r ttrydydd y bore wedyn ac aeth pawb adre yn ôl arfer y chwarel fel arwydd o barch.

Cysgod dros y Fro
A dyfynnu'r Herald eto:

"Pan gyrhaeddodd ein gohebydd Ddeiniolen, bore dydd Mawrth, canfu i'r trychineb daflu ei gysgod dros yr holl gymdogaeth. Safai tyrrau o bobl ar y ffyrdd, a pawb yn trafod y ddamwain. Deuai'r chwarelwyr adref yn lluoedd, ac yr oedd yn amlwg ar eu whynebau i'r digwyddiad alaethus eu tristhau.

Rhoddai cymdogion a chydnabod y dynion a gollodd eu bywydau air uchel i'r tri fel gweithwyr, a thystient hefyd eu bod yn gymeriadau rhagorol, ac yn ddefnyddiol mewn byd ac eglwys."

Dihangfa Gyfyng

Dyma stori dihanfa gyfyn Owen Evans:

"Oddeutu 3.20 o'r gloch y prynhawn, wedi inni saethu, a chlywed y corn yn canu

dychwelasant i Bonc Pen Rhydd i glirio'r lle ar ol tanio'r pylor. Gweithiai pedwar ohono ymo, sef y tri a gollodd eu bywydau, a minnau. Yn sydyn, daeth rwb o'r rhan uchaf i'r fargen, oddeutu 15 llath uwch ein pennau, i alwr. Y cwbl a welais, oedd gweled rhyw dywylltuch mawr yn dyfod dros y lle, a chlywais drwy'r cwmp uwchben. Yswatais at ystlys y clogwyn, a chau fy llygaid. Pan glywais rywun yn gweiddi arnaf codais fy ngolwg, ac nid oedd fy nghydweithwyr i'w gweled yn unman. Yr oeddwn wedi myned yn hollol ddiideimlad, ond ni dderbyniais unrhyw niwed. Mae'n rhaid mai gwyrrh ydoedd."

Yn y cwest pasiwyd rheithfarn o farwolaeth ddamweiniol ar y tri.

Yn Frith gan bobl

Cynhaliwyd yr angladdau y Sadwrn wedyn - un Robert Thomas ym mynwent Macpelah ac un R.H. Edge a H.A. Jones ym mynwent Llandinorwig. Dyma ddisgrifiad yr Herald:

"Prin y gwelwyd angladdau lluosocach yn ardal Deiniolen a Dinorwig nag angladdau y tri dyn ifanc y soniwyd amdanynt. Cleddid hwy prynhawn Sadwrn diweddf, a chyrchodd tyrfaoedd o bell ac agos i'r hebrwng i dir eu hir gartref. Nid oes neb tebyg i chwarelwyr Gogledd Cymru am gydymdeimlo a'i gilydd mewn trallodion, a pheth cyffredin yw gweled teuluoedd profedigathus yn ardaloedd y chwarelau yn Arfon yn derbyn ugeiniau o bunnau o offfrwm cydymdeimlad mewn agladdau. Cawsom braw o hyn dydd Sadwrn, wrth weled cannoedd o bobl yn ymweled a'r teuluoedd trallodus yn ardal Deiniolen a Dinorwig, a phawb yn cyfrannu'n helaeth i helpu'r weddw a'r trallodus yn eu galar. Golygfa ryfedd oedd gweled ochr Dinorwig, y Fachwen, a heoldd Deiniolen yn frith gan bobl, a ymwelai a'r tri theulu trist. Angladdau cyhoeddus oeddynt."

Er i'r ddamwian erchydus hon ddigwydd hanner canrif yn ôl mae'r atgof yn dal yn un hunllefus i nifer fach o hyd.

Dafydd Orwig



Dyma lun o'r diweddar Tom Pierce a'i frawd Robert yn Chwarel Garreg Fawr, Waunfawr yn y flwyddyn 1943. Llun ydyw a dynnwyd yn wreiddiol i'r 'Cymro'. Diolch i'w chwaer, Miss Mary Pierce, Bryn Glas, Ceunant am ei anfon inni.

ENNILL Y PŴLS



Kevin a Cynthia Bisset o Lanrug ydy'r pâr hapus yma. 'Roedd Kevin yn un o ddeg o ddynion a enillodd dros £90,000 ar y pyllau pêl-droed yn ddiweddar. Pob lwc iddynt!

MENTER WAITH I LANBERIS

Cynhelir cyfarfod yn Llanberis yn fuan i astudio'r posibilrwydd o sefydlu menter waith yn y pentref. Trefnir y cyfarfod gan Ganolfan Adnoddau Gwaith Gogledd Cymru. Dywedodd swyddog maes y Ganolfan yn yr ardal hon, Eurig Wyn o'r Waunfawr, ei fod wedi annerch y Cyngor Plwy ac wedi cael ymateb ffafriol. Y gobaith yw y gellir sefydlu pwyllgor gwaith yn yr ardal a fydd yn medru astudio'r holl bosibiliadau. Wedyn gellid mynd ymlaen i geisio cychwyn menter waith gydweithredol y byddai pawb yn y pentref yn gyd-berchnogion arni: tebyg i'r hyn a wnaed eisoes yn Llanaelhaearn.

Yn ogystal â Mr Wyn bydd Dewi Jones o Antur Aelhaearn yn annerch y cyfarfod a Mr Moi Parry o Gerrig-y-drudion, sy wedi sefydlu menter debyg yn y cylch hwnnw. Cynhelir y cyfarfod yn Festri Gorffwysfa ar Chwefror 14 ac fe'u cadeirir gan Gwynfor Williams. Mae Canolfan Adnoddau Gwaith Gogledd Cymru newydd agor swyddfa newydd yn Llanrwst i wasanaethu'r cyfan o Ogledd Cymru a bydd yno dîm o bedwar o weithwyr a fedr helpu i sefydlu mentrau gwaith a sbarduno gweithgarwch cymdeithasol o bob math.

Mae CAG hefyd yn gweithio mewn cyswllt â Chyngor Dwyfor i weld a ellid sefydlu gwaith a sbarduno gweithredu cymdeithasol yn yr ardal honno. Dywedodd Eurig Wyn fod y rhagolygon yno yn

Deiniolen

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn Ystafell y Seindorf nos Fawrth, Ionawr 22, pryd y penderfynwyd rhoi rhodd o £50 i Gronfa Gŵyl Dewi Plaid Cymru 1980.

Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr: £15: rhif 108, Miss Eileen Williams, 37 Rhydfadog a £10 - rhif 3, Mr Leonard Parry, 13 Hafod Olau.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

'obeithiol iawn'. 'Roedd unrhyw fenter y gellid ei symbylu yn yr ardal wledig hon o'r pwys mwya o hyn ymlaen meddai am fod y posibilrwydd o ddenu gwaith i'r ardal o'r tu allan yn fain, a dweud y lleiaf.

BENTHYCA RECORDIAU



Gellir bentyca recordiau a neu casetiau yn awr o Lyfrgell Llanberis. Yn y stoc y mae deunydd clasurol yn ogystal â phoblogaidd - yn Gymraeg a Saesneg.

TANYSGRIFIAD: £2.50 y flwyddyn

Y mae casgliad o recordiau a chasetiau i'w cael hefyd yn y Lyfrgell ym Mangor, Pwllheli a Phencadlys Arfon Dwyfor yng Nghaernarfon.

GWASANAETH LLYFRGELL GWYNEDD

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL CYLCHGRAWN NEWYDD

Cyhoeddir cylchgrawn arbennig yn yr ysgol yn ystod y tymor hwn. Eisoes penderfynwyd mai'r 'Efail' fydd teitl y cylchgrawn a gobeithir y daw cyfraniadau gan nifer o ddisgyblion yr ysgol. Penodwyd aelod o bob dosbarth i gasglu deunydd addas fel erthyglau, darluniau ac yn y blaen. Bydd y cylchgrawn yn ddwyieithog a rhoddir gwobr arbennig am y cyfraniad gorau, ac am gynllunio clawr i'r rhifyn cyntaf o'r 'Efail'.

O FRYNREFAIL I GAERGRAWNT

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Christopher Cheers, bachgen o'r 6ed dosbarth, sydd wedi cael ei dderbyn i Goleg Sant Ioan, ym mhrifysgol Caergrawnt. Dymunwn bob llwyddiant iddo ef yn ei arholiadau lefel A yr haf yma, ac os y bydd yn llwyddiannus bydd yn dechrau ar ei yrfa yng Nghaergrawnt ym mis Hydref.

YR URDD

Yn ystod gwyliau'r Nadolig bu rhai merched o'r 6ed dosbarth yng nghanolfan yr Urdd, Glanllyn yn y Bala tros wyl Calan Gaeaf. Cyfle oedd i gael cwrdd â Chymry Cymraeg o wahanol rannau o Gymru, a chael ymddiddori mewn mynydda, natur, ffotograffi, pantomeim a dawnsio gwerin. Cafwyd amser diddorol dros ben, ac edrychir ymlaen at yr un cwsr

y flwyddyn nesaf.

Y mae nifer o weithgareddau eraill yr Urdd ar dro yn ystod y tymor hwn hefyd. Mae llawer o'r aelodau wedi ymuno mewn corau a phartïon i gymryd rhan yn Eisteddfod cylch yr Urdd, gyda'r gobaith o anelu at y prif wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Colwyn ym mis Mai.

Achosion Da

Diwedd y tymor diwethaf cynhaliwyd arwerthiant nwyddau yn yr ysgol, a chafwyd y cyfanswm o £188.38 yn sgîl yr ymdrechion. Trosglwyddwyd yr arian i apêl Blue Peter tuag at Cambodia. Yn ystod yr un amser, hefyd, bu nifer o gasgliadau ar dro yn yr ysgol i helpu pobl dan anfantais. Anfonwyd yr arian i'r acnlynol: Dr Barnados £5.00, Spastics £5.00, RSPCA £8.00, Radio C & A £8.00, Muscular Dystrophy £8.00, Kidney Research £5.00, Cancer Research £8.00, Heart Foundation £8.00, Council for The Disabled £5.99, North Wales Blind £10.00, Guide Dogs for the Blind £10.00 Casglwyd £50 gan enethod 5B yn ystod y mis hwn trwy gynnal boreau coffi yn yr ysgol. Bydd yr arian yn cael ei anfon at y 'Sister Superior', Ysbyty Sant Joseff, i helpu pobl sydd yn dioddef o afiechydon terfynol.

ATHRO CEMEG NEWYDD

Hoffwn estyn croeso i Mrs Elisabeth Emmerton, yr athrawes cemeg newydd yn yr ysgol. Mae Mrs Emmerton yn dod o Moelfre, Sir Fôn.

Y PARCH. TERRY THOMAS YN COFIO DEINIOLEN

Llyfr ar Ddeiniolen! Fe'i prynais ar f'union. Darllenais yn eiddgar. Dacw enwau rai o gyn-weinidogion yr ardal! O'r siom, nid oedd hi wedi sôn am f'enw i. Gobeithio yn fawr y bydd fy "enw fry ar lyfrau'r nef." Sicr wyf fod rhan ohono yn fythol Ddeiniolen. Bro'r chwarelwyr a'r cerrig gleision.

Bellach, pallodd y drafnidiaeth chwarelyddol. Ni chylwir mwyach gliciadau esgidiau'r gweithiwr na chywrnelli mecanyddol ei gludiant. Darfyddodd gŵr y graig; segur ei gŷn a'i ebill; mud ei fonc a'i gaban. Rhoddodd yr hwter ei holaf gri.

Erys atgofion. Er yn 'gapeloffobiaidd' chwedl Tegla, tu allan i furiau'r Tŷ mawr y cyfeillgarwch. Cydymdeimlad ymarferol yr 'offrwm mawr.' Hwyl y seiri bondigrybwl o brentisiaid yn nosbarth nos Iolen. Côr Peleg - pwy all anghofio'r 'Martyrs' a'r 'Nidaros' dwedwch? Er y silicosis, mor ryfeddol y caniu! Onid oedd gennyf godwr canu oedd yn ail i neb, sicr ei nodyn a soniarus ei lais? Tawodd yntau a'r côr, ond fe erys y Seindorf.

A'r capeli? Cofiaf y pererinion yn tramwyo'r llwybrau tua Seion, er garwed yr hin. O mor ffyddlon oeddynt. Nid delwau, ond gwrandawyr crafi a beirniaid cell; gwyr galluog a diwinyddion praff; gweddiwyr gonest a scolers y Gair. Gwŷr a gwragedd y ddoe!

Beth am yr heddiw? Ai "mieri lle bu mawredd?"

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

ADDYSG DDOE



Plant Ysgol Llanddinorwig tua 1930

Y Llun trwy garedigrwydd Mr John E. Thomas, Bwlch-y-gwynt, Dinorwig



Côr Plant Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Rhan o gôr yr Eisteddfod Genedlaethol, Caernarfon 1935. Llun Mr John E. Thomas, Dinorwig.



Ysgol Babanod Deiniolen 1936

Llun: Mrs Nan Owen, Cynfi Terrace, Deiniolen.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiart

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



Daeth fy nain yn eneth ieuanc o Sir Fôn i weithio fel cogyddes yng nghastell Bryn Bras ger Caernarfon. Gweithiai nifer fawr o gwmpas y lle tu mewn a thu allan a llawer o hwyl a miri yno. Y flwyddyn oedd tua 1870

Un noson, a phawb o'r gweithwyr, sef gweision a morynion yn mwynhau swper o amgylch y bwrdd yn y gegin, a rhai yn mynd yn ôl ac ymlaen, dechreuodd y llestri ar y dresel symud, ac yr oedd swm anferth. Edrychai pawb ar ei gilydd, ond nid oedd esboniad o gwbl i'r hyn â ddigwyddodd.

Aethant drwodd i ran arall o'r castell – h.y., y rhan honno oedd yn benodedig i'r gweithwyr – dynion a merched. Nid oedd swm yn awr yn unman na neb o gwmpas.

Daeth yn amser noswyllo, ac erbyn hyn yr oedd pethau wedi tawelu yn y gegin, ond yr oedd arswyd ar y morynion. Buont yn effro drwy'r nos yn gwrandao ac yn sisial a'i gilydd yn ddistaw. 'Roedd popeth yn ei le a thawelwch, y bore canlynol.

Yr ail noson digwyddodd yr un peth – yr un swan a'r llestri yn symud o'r naill ben i'r llall i'r dresal. Daethant i'r penderfyniad fod ysbryd yn y castell, a rhai merched yn selog yn chwilio am swydd mewn lle arall i gael anghofio yr arswyd a'r 'ysbryd'!

Nid oedd fawr o gysgu'r nos yno, dim ond gwrandao'n astud a phob swm bychan o'r tu allan fel pe'n swno'n fwy nag ydoedd, mewn gwirionedd.

Ni chaed sôn am ddim ganddynt y diwrnodiad canlynol, ond am "y owgan yn y castell".

Ni feiddiant sôn am hyn wrth y meist'r a'r feistres – 'roedd rhyw bellter rhyngddynt yr adeg honno, –

pellter anferth rhwng gwas a morwyn, a'r byddigions.

Fel hyn y bu am gyfnod – ambell i noson caent lonydd amser sper, ond y noson wedyn yr un hen swm a symudiadau.

Penderfynodd un go fentrus o'r gweision gadw gwyliadwriaeth manwl. Sylwodd yn bur fuan nad oedd pawb yn bresennol wrth y bwrdd swper. Nid oedd neb o'r blaen wedi sylwi ar hyn ganfod cymaint ohonynt o gwmpas a rhyw fynd 'nôl a blaen yno o hyd.

Aeth y gwas allan a gwyliodd. Clywodd droedio ysgafn yn y coed gwyrdde dd tu cefn i'r gegin. Ar hyn, aeth y gwas i'r gegin i edrych oedd rhywbeth yn digwydd yn y gegin. Oedd yn wir, yr un hen branciau.

Un o'r gweision, un reit ieuanc hefyd, oedd wedi dysgu consuriaeth. Daeth yno yn was bach fisoedd cyn hynny ac ni wyddai neb o ble y daeth na phwy oedd ei deulu.

Ar ôl holi caed allan mai wedi dianc o ffair oedd yn pasio o Gaernarfon i Lanberis yr oedd a chael gwaith ym Mryn Bras.

Cawsai addysg mewn cosuriaeth a thriciau trwy ei fore oes, ac wrth gwrs yr oedd ganddo yntau y medrusrwydd angenrheidiol at y gwaith hwnnw.

"Nid oedd bwgan yng nghastell Bryn Bras, ond y bachgen ieuanc ddaeth yno i weithio yn chwarae ei *slide of hand*" meddai Nain.

CWRS ELECTRONEG I'W GYNNAL YM MRO'R ECO

Bydd Canolfan Adnoddau Gwaith Gogledd Cymru yn trefnu cwrs electroneg ar y cyd gydag adran electroneg Coleg y Brifysgol, Bangor. Bwriedir cynnal y cwrs yn ardal Eco'r Wyddfa yn ystod misoedd y gaeaf nesa.

Mae adran electroneg Prifysgol Bangor yn un sy wedi arbrofi cryn dipyn yn y maes hwn ac maent yn ymwybodol iawn o'r angen sydd i addasu maes fel electroneg ar gyfer anghenion creu gwaith yng Nghymru wledig. Oni fyddai'n wych o beth pe bai grŵp o bobl yn rhai o bentrefi'r Eco yn manteisio ar y cyfle i osod diwydiant ysgafn fel hwn ar ei draed.

Bydd y cwrs a drefnir yn costio punt y ddarlith. A wnaiff unrhyw un sydd a diddordeb mewn mynychu'r fath gwrs ddod i gysylltiad ag Eurig Wyn, Llawr 1 2, Bradford House, Stryd Dinbych, Llanrwst. neu 'Y Frenni', Waunfawr.

Bydd yn rhaid cael lleiafswm o ddeuddeg o enwau cyn y gellir cychwyn. Gellir cael rhagor o fanylion drwy anfon i'r cyfeiriadau uchod neu drwy ffonio Llanrwst 641280 neu Waunfawr 512.

NANT PERIS

CROESO ADREF – I Rowenna Thomas, Bron Wyddfa ar ôl triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Bangor.

LLONGYFARCHIADAU – I Jennifer Ellis, Hafan a Sian Pritchard, Llys Awel ar eu llwyddiant mewn arholiad chwarae piano dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

MARW – Dydd cyntaf o'r flwyddyn bu angladd y ddiweddar Miss Morfydd Evans, Llanberis. Bu Miss Evans yn athrawes yn ysgol y Nant am bum mlynedd ar hugain ac yn fawr iawn ei pharch gan y rheini a'r plant.

DYMUNIADAU DA – I Glenys Jones, Maes yr Haul a Keith

Ddeiniolen ar eu dyweddïad, hefyd i Sian Williams a Michael O Ddeiniolen ar eu dyweddïad hwythau.

BLWYDDYN NEWYDD – Cafwyd noson hwyliog yn Festri Rehoboth i ddisgwyl y flwyddyn newydd. Er bod y nifer yn bresennol yn llai nag arfer gwnaeth y plant eu gwaith yn ardderchog fel arfer.

PEN-BLWYDD HAPUS – Bythefnos yn ôl 'roedd Mrs Hughes, Tŷ'r Ysgol gynt yn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed. Mae Mrs Hughes wedi gadael y Nant ers blyneddau bellach ond mae'n dymuniadau gorau yn mynd iddi ar yr achlysur hapus.

Bethel

CLWB Y MAMAU – Cyn y Nadolig bu aelodau Pwyllgor Clwb y Mamau yn rhannu anrhegion Nadolig i Oedolion yr ardal a hefyd i bob clâf o Fethel yn yr ysbytai a'r cartrefi.

Canlyniad y Raffl Nadolig oedd fel a ganlyn:

Planced wedi ei chrosio – J. Evans, Mur Mathew, Caeathro. Potel o Sieri – Raymond, c o Gilfach Saron, Bethel.

Bocs o ffrwythau – Philip Houghton, 23 Maes Hyfryd, Carmel. Glo – 175 Ferodo (G. Owen, 17 William Street, Bangor). Potel o win – E. Roberts, Clegir, Llanberis. Tatws – Arwel, Penybuarth, Bethel. Nwyddau – A. Roberts, Clegir, Llanberis. Tatws – Arwel, Penybuarth, Bethel. Nwyddau – A. Roberts, Wrecsam, c o Trem Eryri, Bethel. Potel o Port – Tommy, Pentir Inn, Pentir. Bisgedi – Bill Jones, 6 Cambrian Terrace, Tywyn.

'Roedd elw'r raffl at brynu'r anrhegion Nadolig ac fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

DIOLCH I'R GWEITHWYR – Mae Mrs Mona Williams, 9 Bro Rhos, a Mrs Mary Hughes, 27 Bro Rhos yn rhoi'r gorau i werthu'r Eco ar ôl bod wrthi ers y dechrau. Diolch i'r ddwy am yr holl waith a wnaethant ers pedair blynedd.

LLONGYFRACHIADAU – I Euron Griffiths, Crud yr Awen a Miss Helen Hughes, Gwyndŷ, Rhiwen Deiniolen ar eu dyweddïad. Mae Euron ar ei flwyddyn gyntaf yn y Brifysgol yng Nghaint a Helen ar ei hail flwyddyn yn y Brifysgol ym Mryste.

CYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLLEN – Nos Fawrth, Ionawr 15 fe ystyriwyd nifer o geisiadau am grantiau gan y Cyngor Cymdeithas. Penderfynwyd rhoi grant o £10 i'r Eisteddfod, £10 i'r Ysgol Feithrin a £50 i'r Neuadd.

Cafwyd gwybodaeth hefyd bod y goleuadau cyheoddus yn y Pentref i gael eu gwella yn ystod y flwyddyn

nesat.

PWYLLGOR Y NEUADD – Bydd Pwyllgor y Neuadd yn cyfarfod yn y Neuadd nos Fercher, Chwefror 6. Taer erfynni'r am bresenoldeb yr holl aelodau. Mae cynrychiolydd o bob mudiad ar y Pwyllgor ond ychydig iawn fydd yn troi i fyny i'r Pwyllgorau. Mae gwaith mawr o flaen y Pwyllgor a'r pentref yn ystod y misoedd nesaf i godi arian i orffen gwella'r Neuadd.

YR EISTEDDFOD – Bydd Raffl yr Eisteddfod yn cael ei thynnu mewn Noson Goffi yn y Neuadd am 7.30 nos Wener, Chwefror 8.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Ionawr 9 cafwyd noson o 'Hawl i Holi' yn yr ysgol. Aelodau'r panel oedd Mrs O.M. Lloyd, Caernarfon, Y Canon Alun Jones, Llanberis a Mr Selwyn Griffiths Crud yr Awen a Mrs Helen Bebb oedd yn codi'r cwestiynau. Cafwyd noson hwyliog a difyr a diolchwyd i'r panel gan Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc. Daparwyd y teg gan Mrs Evans a Mrs Eirlys Sharpe, Llys Elen. Enillydd y raffl oedd Mrs M.G. Williams, Gwylfa.

Gofynnir i bawb sydd am fynd i'r Cinio Gŵyl Dewi ym Mhlas Gwyn, Pentrefelin, roi eu henwau a £1 tuag at y gost yn y cyfarfod nesaf nos Fercher 13.

CLWB Y RHOS – Mr Alwyn Williams, Bro Hedd, Seion oedd yn gyfrifol am y noson yng Nghlwb y Rhos. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo ar ei brofiadau yn hedfan gyda'r Clwb Hedfan ym Mona. Dangosodd hefyd nifer o sleidiau o'r cylch wedi eu tynnu op'r awyr. Diolchwyd i Mr Williams gan Mr Gwyndaf Williams, Tan y Cae.

Mr Geraint Elis, Sycharth oedd yn gyfrifol am y te ac ef fydd yn gyfrifol am y noson ym mis Chwefror.

CYDYMDEIMLO – Dydd Sadwrn, Ionawr 19 bu farw Miss Annie Williams, Niddfa. Mae ein cydymdeimlad â'i chwaer yn ei phrofedigaeth.



Dyma lun Ysgol Sul y Cysegr. A oes Ysgol Sul fwy yn ardal yr Eco? Yn aml bydd 80 o blant ac athrawon yn dod i'r Ysgol yn y Cysegr.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

LLANRUG

LLWYDDIANT CERDDOROL – Llongyfarchiadau i Olwen Meredydd Jones, Gwên-y-Wawr ar ei llwyddiant mewn arholiad canu'r piano, Graddfa 2 (gyda theilyngdod), ac hefyd i Delyth Wyn Huws, Eithinog, Afon Rhos, Graddfa 3 (gyda theilyngdod). Eu hathrawes yw Mrs Mair Huws, Cilmeri, Glanffynnon.

AR Y RADIO – Ar y rhaglen 'Llatai' fore Llun cyn y Nadolig roedd llawer o ffrindiau Geraint Meredydd Rowlands, Llys Forgan yn falch o glywed ei lais o'r Almaen. Afonwn ein llongyfarchion i Geraint ar ei ddychafiad yn Is-Gorporal.

MARW – Yn sydyn yn ei chartref Gwynfa, ar Ionawr 3, bu farw Mrs Laura (Louie) Ellen Pritchard, gwraig Mr Robert Pritchard, mam Rose Ann a nain Helen Wyn. Dioddefodd gystudd hir a blin yn ddewr a siriol. Estynnir ein cydymdeimlad llwyr â'i phriod, ei merch a'i mab yng nghyfraith a'r teulu oll yn eu colled fawr.

Ionawr 3, daeth y newydd trist o Ganada am farwolaeth sydyn Mrs Myrtle Jean Parry, 310 Braidwood Avenue, Peterborough, Ontario, gwraig Mr Moi Parry (gynt o Fron Haul, Llanrug). Byddem yn cael pleser o'u croesawu ar eu gwyliau i'r ardal hon ers sawl blwyddyn bellach, a chaf'r Cymry âi drosodd i Ganada ddrws agored a chroeso cynnes bob amser yn eu cartref. Rhoddwyd blodau gan y canlynol: Mrs Parry a'r teulu, Min y Nant, Caernarfon; Mr a Mrs T. Price, Stryd Siarlot, Llanberis; Eric a Nancy Morris, Llanrug; Myrddin a Gaynor Williams, Penterfyn; Ian ac Eilys; Eluned a William Ellis Owen, Bryn y Maen; Cis, Bryn Mâl, Llanberis; Alfred, Sylvia a'r teulu, Fferm Bron Eryri; Dr a Mrs Terry Maxwell, Llandegfan.

Y GOBEITHLU, Capel Mawr – Cafwyd dau gyfarfod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Christine Jordan, Bethan Lewis Parry a Gwawr Owen. Cymerwyd rhan mewn canu gan nifer o'r plant gyda Mrs Jones, Ogwen yn cyfeilio. Dangoswyd ffilmiau gan Mrs W.O. Roberts a Mr John Williams, Gweledfa yn cynorthwyo.

Llawenydd i blant hynaf y Gobeithlu oedd ymweld â Chartref Pengwaith i gyflwyno cyngerdd addas ar gyfer y Nadolig. Cawsant groeso cynnes iawn gan bawb yno. Diolchodd y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts am y croeso i Mrs M. Jones, Ogwen a Mrs Lily Horman am hyfforddi'r plant ac i Mr Eric Morris am ei garedigrwydd yn trefnu cludiant rhad.

OEDFAON ARBENNIG – Dydd Sul cyn y Nadolig cafwyd festri'r Capel Mawr yn llawn i ddwy oedfa arbennig iawn. Yn y bore bu Gwasanaeth Nadolig y Plant a drefnwyd gan y Parch W.O. Roberts. Hyfforddwyd y plant gan athrawon yr ysgol Sul o dan arweiniad Mrs Olwen Llewelyn, Pant Afon Bach. Yn yr hwyr canwyd carolau, gydag eitemau o ganu ac adrodd gan nifer o'r aelodau. Teimlodd pawb fod y ddwy oedfa yn baratoad cymwys iawn ar gyfer dathlu'r Wyl.

CYMDEITHAS LENYDDOL Y CAPEL MAWR – Bu dau gyfarfod. Cynhaliwyd Seiat Holi o dan lywyddiaeth Mr Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, a'r panel oedd Dr Eirwen Gwynn, Mrs Lola Butler a Mr Hefin Jones, Pant Mwyn. Gofynnwyd nifer fawr o gwestiynau amserol a chafwyd atebion diddorol. Diolchwyd gan Mr John Williams, Gweledfa, yn cael ei gefnogi gan Mr John Wyn Owen, Llain-y-Delyn.

Cafwyd noson hwyliog o dan ofal Mrs Lola Butler, Haddef ar Ionawr 17. Llywyddwyd gan Mr O. Davies, Plas Gwyn. Cymerwyd rhan yn y chwaraeon gan Mrs Horman, Mrs M.E. Jones, Mrs J. Williams, Mrs J. Jones, Mr J.W. Owen, Mr Gwilym Owen, Mr J. Wyn Owen a Mrs M. Evans, Lloc. Siaradwyd ymhellach gan y Parch. W.O. Roberts. Ar ganol y ddau gyfarfod paratowyd paned o de gan rai o chwiriwyd y Gymdeithas.

PARTI NADOLIG PLANT CAPEL MAWR – Ymwelodd Siôn Corn yn ôl ei arfer eleni eto a derbyniodd dros 80 o blant rodd ganddo. Trefnwyd y wledd gan athrawon yr Ysgol Sul a rhieni'r plant. Dangoswyd ffilmiau diddorol gan Mr Gwyndaf Jones, Glanffynnon.

PLYGAIN – Fore'r Nadolig am saith o'r gloch cynhaliwyd Gwasanaeth y Plygain yn Festri Pontrhythallt. Yr oedd y festri'n llawn a chymerwyd rhan mewn gwir addoliad gan blant, pobl ieuainc a rhai hŷn. Gwnaed casgliad sylweddol tuag at gynorthwyo trueiniaid Kampuchea.

GWASANAETH NADOLIG Y PLANT – Cafwyd dau wasanaeth hyfryd gan blant Capel Pontrhythallt a Than-y-coed. Daeth cynulliad lluosog i'r ddwy oedfa, a gwnaed casgliadau sylweddol yn y ddwy eglwys at Ysgol Pendalar, Caernarfon. Yn y ddau wasanaeth cyflwynodd y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts annerchiad byr i'r plant a diolchodd i'r athrawon Ysgol Sul a'r rhieni am eu cydweithrediad.

CYFARFOD GWEDDI POBL IEUAINC, Capel Mawr – Trefnwyd y cyfarfod gan y Parch. W.O. Roberts, a thraddododd annerchiad yn cynnwys neges i'r ieuencid. Cymerwyd rhan gan Gwen O. Jones, Dylan Williams, Lola Jones, Gareth Lloyd Roberts, Richard Ellis Owen, Wendy Roberts, Gwyneth Jones, Carol Ann Jones, Manon Owen, Elidir Owen, Carolyn Owen, Myfanwy Jones ac Arfon Owen. Cyfeiliwyd gan Mrs M. Jones, Ogwen.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd gyda Mrs N. Lovatt yn y gadair. Talodd cangen Waunfawr ymweliad â'r gangen a chymerwyd rhan mewn cwis. Waunfawr a orfu o naw pwynt. Trefnwyd y cwestiynau gan Mrs N. Lovatt. Enillwyd y raffl gan aelod o'r Waunfawr a diolchwyd ar eu rhan gan eu llywydd Mrs Austin Jones. Darparwyd lluniaeth gan Mrs Sheila Williams, Mrs Margaret Jones, Mrs Vera Williams, Mrs Meirwen Lloyd a Mrs Joyce Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 12 yn yr Ysgol Gynradd pan ddisgwylir Mr R. Alun Evans, BBC i roddi sgwrs.

CYDYMDEIMLWN – â Mrs E. Jones, 5 Rhos Rug ar farwolaeth ei brawd Mr O.T. Owen, Y Felinheili.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, Ionawr 15 cafwyd noson ddiffr iawn gydag aelodau o Gymdeithas Llanrug, yn cymryd rhan mewn cwis. Yr Holwr oedd Mr David Whiteside Thomas. Talwyd diolchiadau gan y Parch W.O. Roberts a Mrs Nesta Pritchard, Glanfa.

DAMWAIN – Drwg gennym am yr anffawdd ddaeth i ran Mrs A. Williams, Ystrad yn ddiweddar. Mae ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch, Mrs Mair Lloyd Huws, Glanffynnon. Dymunwn wellhad buan iddi.

O'R YSBYTY – Da deall fod Mr Emlyn Jones, Parc Isaf wedi dychwelyd gartref o'r ysbty. Parhaed i wella.

CROESAWN – Mrs Williams a Miss A. Parry (Deiniolen) gynt o Cartrefle,

Rhythallt Terrace yn ôl i'r ardal. Byddant yn cartrefu yn Hafan Elan.

PASIAN Y PLANT – Noson Gwyl Ystwyll fe fu plant Ysgol Sul Sant Mihangel yn perfformio eu pasiant Nadolig. Yr oedd holl blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan a hyfforddwyd hwy gan y Rheithor ac athrawon yr Ysgol Sul. Y darllenwyr oedd: Terisa Gardiner, Bryngwyn; Gwawr Owen, Rhos Elan; Llinos Davies, Bodawel; Peter Lloyd Jones, 2 Bryn Fedwen a'r Rheithor. Yr organydd oedd Mr J.T. Morris, Erw Wen. Y mae'r plant yn haeddu canmoliaeth am wneud gwaith mor dda.

PARTI NADOLIG – Bu i blant Ysgol Sul Sant Mihangel fwynhau eu parti Nadolig a gymerodd le yn y Sefydliad Coffa ar y Sadwrn wedi'r Nadolig. Darparwyd y wledd gan athrawon yr Ysgol Sul a rhieni'r plant ac erail o gynulleidfa yr Eglwys. Wedi'r parti aeth y plant, eu rhieni ac athrawon yr Ysgol Sul ac erail i weld y pantomeim Mwstwr yn y Clwstwr yn Theatr Gwynedd ym Mangor. Bu i bawb fwynhau ei hun yn fawr iawn.

CINIO BLYNYDDOL UNDEB Y MAMAU – Aeth aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion i Westy yr Afr, Beddgelert i fwynhau eu cinio blynyddol eleni a chafwyd gwledd ardderchog a chroeso calon yno. Bu i bawb fwynhau ei hun yn fawr iawn.

CYSTADLEUAETH CORNEL Y PLANT – Daeth Terisa Gardiner a Llinos Davies yn agos iawn at gael gwobr yng nghystadleuaeth Cornel y Plant, yn Y LLAN, papur newyddion yr Eglwys yng Nghymru. Llongyferchir hwy yn galonnog iawn a hyderwn y bydd erail yn cystadlu y tro nesaf ac y byddant hwythau yn llwyddiannus hefyd.

MARW – Yn ddiweddar bu farw Owen Morris, Erw Hywel ac ef yn 88 oed. Cafodd gystudd blin ers rhai misoedd. Y Rheithor a wasanaethai yn y gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel ac yn yr amlogsga ym Mangor. Cydymdeimlir â'i weddw Mrs S. Morris a fu yn ofalus iawn ohono er gwaethaf ei hafiechyd hithau. Y mae ein cydymdeimlad â'i ferch Miss Grace Morris, Hen Walia, Caernarfon ac â'i ddau fab H.G. Morris, Rhostryfan a R. Morris, Llangoed, yn fawr iawn hefyd. Claddwyd llwch Owen Morris ym meddrod y teulu ym mynwent Eglwys Llanrug a'r Rheithor yn gwasanaethu.

YR YSGOL FEITHRIN – Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am y rhoddion canlynol a dderbyniwyd yn ystod y tymor diwethaf: Clwb y Mamau Llanrug, £10; John a Sandra Trevor, Hafod Wen, £10; Mrs C. Jones, £1; Cyngor Cymdeithas Llanrug, £25; Miss Humphreys, Tasn-y-coed, £1; Elw Bore Coffi Mrs Marilyn Jones a Mrs Awen Davies, £6.12; Teganau gan Mrs Beth Jones, Dolwen.

Cynhelir Tair Beic Noddedig fore Sadwrn, Chwefror 23. Ceir ffurflenni gan Mrs Rhian Jones, 3 Stad Minffordd (ysgrifennydd), neu Mrs Mair Huws, 20 Glanffynnon (trysorydd).

Bwriedir cynnal Ffair Basg a thombola ar nos Fercher, Mawrth 26. Bydd pwyllgor i drefnu hyn nos Iau, Chwefror 14 am 8 o'r gloch yn Festri Pontrhythallt. Estynnir croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU – i Delyth Wyn Huws, Eithinog, 14 Afon Rhos ac Olwen Meredydd Jones, Gwên y Wawr, Glanffynnon am lwyddo yn eu harholiadau piano dan nawdd Associated Board, Llundain., Llwyddodd Delyth yn ei Gradd II (merit) ac Olwen Gradd II (merit). Paratowyd hwy at yr arholiad gan Mrs Mair Huws, Cilmeri, Glanffynnon.

CYNRYCHIOLI CYMRU



Bu Elwyn Griffith, Cae Ysgubor, Nant y Betws yn cynrychioli Cymru yn Nhreialon Cŵn Defaid Rhyng-genedlaethol yn Stranraer yr Alban. Daeth yn 4ydd allan o 181 o ymgeiswyr yn y Treialon Cenedlaethol Cymreig yn Llyswn, Aberhonddu, ac felly gan fod y pymtheg gorau yno yn cynrychioli Cymru bu ef a'i gi 'Vick' yn Stranraer.

Hefyd enillodd 'Vick' y gwpan yn nosbarth agored Ymrysonfa Betws Garmon eleni.

Dyma ei lun gyda'r cŵn.

Pencampwr arall ym Mro'r Eco ac mae'r fro yn falch ohono. Bydded i enw Elwyn Griffith fod ar ben y rhestr fel y gorau trwy'r wlad yn ei faes.

Gŵyl Gerdd Menai 1980

Ym mhwyllgor Gŵyl Gerdd Menai nos Fawrth diwethaf trefnwyd rhaglen gynhwysfawr ar gyfer Gŵyl 1980 i gynnwys Cyngerdd gan Gerddorfa, datganiad ar yr Organ, Cyngerdd Siambr a pherfformiad gan Cantorion Menai (Arweinydd: John Huw Davies) o Judas Maccabeus gan Handel.

Mae Cystadleuaeth i gyfansoddwyr wedi ei drefnu.

Cynhelir Gŵyl 1980 yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Sul, Ebrill 27, 1980.

Bydd themau'r Wyl yn adlewyrchu sefydlu Eglwys gan Sant Tysilio 1350 mlynedd yn ôl yn 630 AD ar ynys ym Mhorthaethwy, ac fe fydd yr Wyl yn agor gyda gwasanaeth yn Eglwys Santes Fair, Porthaethwy, for Sul, Ebrill 27.

**WIL
a
VAL GUY
TREFLYN
STORES
BETHEL**

Bwydydd, Melysion, Teganau a
Diodydd ac yn awr dewis o
Ddillad Plant

Y FELINHELI 670 237

WAUNFAWR

YN YR YSBYTY – Mae Mrs Trevor Beech, Cynlas yn yr ysbty a dymunir adferiad buan iddi.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Rosina Owen, 4 Dol Erddi. Gobeithio ei bod hithau'n dal i wella.

GENEDIGAETHAU

– Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gary Davies, Hafan ar enedigaeth mab, Gavin.

Hefyd i Mr a Mrs Raymon Jarvis, Hyfrydle ar enedigaeth merch, chwaer i Paul

DATHLU PEN-BLWYDD – Llongyfarchiadau i Anna Lloyd Hughes, Treflan Isaf ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

ARHOLIADAU CERDDORIAETH – Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu llwyddiant mewn arholiadau cerddoriaeth yn ddiweddar: Ann Llewelyn Griffith, Eirianallt; Alan Benham a Joyce Benham, the Haven; Joanne Weale, Ty'n Twll Bach a Gareth Jones, Glyn Ceris. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddisgyblion i Mrs Ann Marston, ALCM, Blaen y Nant.

PROFEDIGAETHAU – Yn ddiweddar collwyd Miss Catherine Ellen Jones, 26 Tref Eilian o'n plith. Cydymdeimlir â'i chwiorydd, Mrs Edith Ellis, Min y Nant a Mrs Arianwen Thomas, Bro Waun, ei brawd Mr Gwilym Madre Jones, Bro Waun a'r teulu oll.

Cydymdeimlir hefyd â Mrs Rose Ann Hughes, Tref Eilian ar golli ei mam; Mrs Taylor, Dol Erddi, ar golli brawd a Mrs Price, 2 Dol Erddi ar golli wŷr, a Mrs Barbara Bradnock, Adfa ar golli ei mam.

DRAMA'R GENI – Llongyfarchiadau i blant Ysgol Sul Bethel ar eu perfformiad canmoladwy o ddrama'r geni yn y festri, bnawn Sul cyn y Nadolig. Hon oedd drama fuddugol Marilyn Roberts, Bod Afon, yn yr Eisteddfod Ardal. Diolch i Marilyn ac i'r rhai fu'n ei chynorthwyo i baratoi'r plant.

CYNGERDD – Bu Cyngerdd Nadolig ar Ragfyr 18 yn Neuadd yr Eglwys fel cyfraniad at Flwyddyn Rhyngwladol y Plant. Llanwyd y neuadd gan gynulleidfa frwd a chawsom raglen amrywiol wedi ei pharatoi gan aelodau'r pentre o bob oed. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i'r bobl i gyd a oedd yn cyfrannu at adloniant y noson, i'r rhai a oedd yn helpu gyda'r paratodau a'r lluniaeth, ac i lawer o roddwyr haelionus y gwobrau raffl a gafodd eu tynnu yn ystod yr egwyl. Yr elw oedd £102.20 ac anfonwyd siec y swm hwn at y 'Save the Children Fund'. Hoffem ddiolch yn arbennig i Dr Wood fu'n benna' gyfrifol am lwyddiant y noson.

MWSTWR YN Y CLWSTWR – Cafwyd hwyll yn y pantomeim yn Theatr Gwynedd Bangor ddiwedd y flwyddyn. Diolch i Mr a Mrs T.H. Williams, Coed Gwydryn am drefnu'r trip.

CRONFA GYMORTH i'r Llifogydd yn y Rhondda – Cynhaliwyd Noson Goffi i hyrwyddo'r ymgyrch uchod yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Ionawr 11. Cafwyd ymateb rhagorol i'r apêl gan holl fudiadau'r pentre. O ganlyniad i hyn anfonwyd siec o £93.50 i Faer y Rhondda, ac mae rhagor o addewidion ariannol i'w derbyn. Mae'r trefnyddion yn ddiolchgar iawn i'r cyhoedd am eu cefnogaeth ac yn enwedig i'r rhai fu'n gweinyddu yn weithredol ar y noson.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod fis Rhagfyr o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, Rhagfyr 6, gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu.

Yn ei haraith diolchodd Mrs Jones i'r aelodau am ei hethol yn llywydd y

sefydliad. Llongyfarchodd Mrs Beti Griffith ar enedigaeth wyres fach, ac i Mrs Benson ar briodas ei mab. Diolchodd i'r aelodau am helpu i wneud yr yrfa chwist yn llwyddiant a diolchodd am yr arian o'r pentref ac o Lanberis. Diolchodd i Mrs Evans, Mrs Nesfield a Mrs Benson am ddiddanu'r aelodau yn y Swper Nadolig, ac i Mrs Parry Williams am fenthg y chwaraeydd recordiau. Cafwyd arddangosfa gemwaith gan wrag wadd sef Mrs Benham o'r Waunfawr. Diolchodd Mrs Doris Roberts iddi. Enillodd Mrs Idris Jones y raffl, ac enillydd y gystadleuaeth oedd Mrs Missen. Y gystadleuaeth at y mis nesaf yw 'Fy hoff risêt'. Rhoddwyd y blodau i Mrs Morley Williams.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Ionawr 8 gwahoddwyd ni i ymweld â changen Llanrug. Cafwyd cwis difyr iawn, gyda changen Waunfawr, ar ôl gornest galed, yn cario'r dydd. Enillwyd y raffl, sef basgedaid o ffrwythau, gan Mrs Mary Lloyd, Bryn Tawel. Diolchwyd ar ein rhan i gangen Llanrug am y croeso a'r lluniaeth gan ein llywydd, Mrs M. Austin Jones.

YR YSGOL FEITHRIN – Bydd yr Ysgol Feithrin yn dathlu Gŵyl Ddewi eto eleni gyda chyw iâr neu sgampi a sgolodion yng Ngwesty Clynog, nos Sadwrn, Mawrth 1af. Bydd y bws yn gadael y Waunfawr am 7.30 ac yn cychwyn adref am 11.30. Y pris fydd £2.00 am gyw iâr a £2.25 am sgampi – y bws yn gynwysiedig.

Os oes gennyh ddiddordeb rhwch eich enw a'r arian erbyn Chwefror 23 i Lyn Roberts, Sŵn y Gwynt, Olwen Williams, Lliant Wen neu Llinos Cadwaladr, 3 Glynafon.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd Ffair Nadolig flynyddol y gangen nos Wener, Rhagfyr 4. Er y tywydd garw bu'n llwyddiant eithriadol a gwnaed elw sylweddol. Enillwyd y gwobrau gan Mrs Huws, Gwastadfaes; Mrs Marion Iwan; Mrs T.H. Williams a Mrs Awstin Jones. Cystadleuaeth enwi'r ddol: Fflur Llywelen.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r aelodau am eu holl waith ac i'r cyfeillion am eu cefnogaeth.

Cyfarfu aelodau cangen y Blaid a'u cyfeillion yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert i gynnal eu parti Nadolig nos Wener, Rhagfyr 21. Trefnwyd yr adloniant gan Norman Williams, a diolchwyd iddo a'r rhai gymerodd ran gan y llywydd, Eurig Wyn. Dosbarthwyd y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd misol y gangen am y flwyddyn nesaf.

TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU – i Manon Llwyd Evans, Carwyn ar ei llwyddiant yn Arholiad Gradd 4 y 'Royal Schools of Music.' Disgybl i Miss Clarice Williams, Llanberis yw Manon.

DYMUNIADAU DA'R ARDAL – i Mr Emyr Jones, 5 Maesgerddi a symudodd i fyw i Hafod Elan ddechrau'r mis. Chwith colli Mr Emyr Jones o'r gymdogaeth i y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Pob bendith iddo yn ei gartref a'i gylch newydd.

GWASANAETH NADOLIG – Prawn Sul, Rhagfyr 16 o dan lywyddiaeth y gweinidog y Parch W.O. Roberts cafwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant yng Nghapel Tan-y-coed, y rhaglen wedi'i threfnu gan y gweinidog, a phlant o bob oed yn cymryd rhan. Y cyfeilyddion oedd Mrs Beryl Mai Jones a Miss Eirian Morris.

TE PARTI – Oherwydd amryw alwadau ar y plant cyn y Nadolig, bu raid gohirio te parti'r Ysgol hyd ddydd Mercher, Ionawr 2. Er newid y dyddiad yr un oedd y mwynhad – y plant yn mwynhau'r danteithion, a'r ffilmiau ddangoswyd iddynt gan y Cynghorydd Gwyndaf Jones, a dilolch i Mr Jones am ddod i ddiddori'r plant â'r ffilmiau.

CYFARFOD GWEDDI – Nos Lun, Ionawr 6 cynhaliwyd 'Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn' yng Nghapel Tan-y-coed, Mri T. Hefin Hughes, R. Arfon Jones, Gwilym Jones a H. Jeffrey Roberts yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Nos Fawrth pregethwyd gan y Parch W.O. Roberts.

COFION – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Modryb Gwen (Miss Gwen Humphreys gynt, merch y diweddar Mr a Mrs William Humphreys, 1 Tai Minffrwd), Mrs Jennie Hughes, Oerddwr. Ar hyn o bryd y mae modryb Mrs Hughes mewn ysbty yn Llundain wedi cael torri ymaith ei choes a hithau yn 90 mlwydd oed.

Atodiad BETHEL

CYDYMDEIMLO – Dydd Mercher, Ionawr 23 yn Ysbty Bryn Seiont bu farw Mr Meredith Williams, Westleigh, Tan y Buarth. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

TŷM SNWCER YMCA – Mae Tŷm Glas Clwb Snwcer y Y.M.C.A. wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol yng Nghwpan y Gynghrair. Dyma'r tro cyntaf ar ôl ail agor y Y.M. i'r tŷm fynd mor bell yn y gystadleuaeth. Yn y rownd nesaf bydd y tŷm yn chwarae yn erbyn tŷm Glas Clwb Snwcer y Borth.

GWAHODDIAD I GYMRY IFAINC

Dowch i Goleg y Drindod, Caerfyrddin
ym Medi 1980

Cyrsiau:

Diploma Addysg Uwch

Gradd B. Add. (Addysg Ddwieithog)

Gradd B.A. (Astudio'r Amgylchfyd)

Gradd B.A. (Astudiaethau o'r 19eg

a'r 20fed ganrif–Saesneg neu Gymraeg gyda Hanes ac
Addysg Crefydd)

Tystysgrif Addysg i Raddedigion

Bradd B.Add. (Cyff. ac Anrhydedd)

Cyrsiau dwieithog

Awyrgylch Gymreig

Llety i bawb yn y Coleg

Adnoddau dysgu rhagorol

Anfonwch am fanylion at y Cofrestrydd

PENISAR – WAUN

DIOLCH – Carwn ddiolch yn fawr iawn i Mr Len Jones, prifathro Ysgol Tan-y-coed, ynghyd â'r rheolwyr, y staff, y plant a'u rhieni, a chyfeillion ymhell ac agos am eu caredigrwydd, eu haelioni a'u dymuniadau da ar achlysur f'ymddeoliad. Diolch o galon i bawb am leddfu loes y ffarwelio.

Miss A.M. Williams.

EGLWYS SANTES HELEN – Cyfarfod Nadolig – Cafwyd cyfarfod Nadolig gan y plant nos Sul, Rhagfyr 23 ac yn y gwasanaeth hwn fe fedyddiwyd Daniel James, mab bach Mr a Mrs Rowlands, Bryn Howell a hefyd Tristan Bedwyr, mab bachg Mr a Mrs Len Jones, Tŷ Capel y Glasgoed gan y Parch. Gwynfor Williams, rheithor Llanrug.

Dosbarth Conffirmasiwn – Bydd y dosbarth yn dechrau nos Fercher, Ionawr 30. Mae naw eisiau cael eu conffirmio. Os oes unrhyw un arall, yn blentyn neu mewn oed, eisiau cael ei dderbyn y mae croeso iddo.

Mr Sam Parry, Cefn Coed – Cydymdeimlwn â Mr Sam Parry, Cefn Coed a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn.

Mr Hughes, Rhosbodrual (Siop Gron gynt) – Yr oedd yn ddrwg gennym glywed bod Mr Hughes wedi bod yn yr Ysbty cyn y Nadolig am ychydig o ddyddiau. Yr ydym ar ddeall erbyn hyn ei fod yn ôl yn ei gartref yn Rhosbodrual ac yn gwella'n foddhaol. Brysiwch wella'n llwyr Mr Hughes.

Mrs Gwladys Thomas, Tai Newyddion – Gwellhad buan i chi Mrs Thomas. Yr ydym yn clywed eich bod wedi bod yn symol efo'r eryr.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol neithiwr (Ionawr 23). Penderfynwyd mynd i Gastell Cidwm ar y 29 o Chwefror i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr Len Jones, noson o englynion a barddoniaeth ddigrif. Diolchwyd i Mr Len Jones am ei gyfraniad gan Mrs Eiriona Williams, Glyn Euron.

Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt a rhoddwyd y tē gan Mrs Ann Jones, Tŷ'n Gerddi a Mrs Margaret Williams, Carrog. Yn ystod y cyfarfod dymunwyd yn dda i Miss A.M. Williams, Brynrefail ar ei hymddeoliad o'i gwaith fel athrawes yn ysgol y pentref.

Yr oedd yn dda gan yr aelodau glywed bod Mr Nathan Jones, Tai Brynhyfryd a Mr Haydn Lewis, Pen Pwll Coch wedi gwella.

Yr oedd pawb yn cydymdeimlo gyda Mr a Mrs Percy D. Williams a Mrs Katie Williams ar farw chwaer Mr Percy Williams.

GWARCHOD PLANT YSGOL – Ar ran y pentref, diolchwn i Mrs Glenys Williams am ei gwasanaeth fel dynes-lolipop yn gofalu am ddiogelwch ein plant ar y ffordd i'r ysgol.

Heblaw hyn, yr oedd ei sirioldeb ar groesffordd King yn galonddid i bawb. Yr oedd ei gofal a'i diddordeb yn y plant yn hynod. Ar yr un pryd, fel y mae Glenys yn rhoi'r gorau i'r gwaith y mae un yn cymryd ei lle sef Mrs Dorothy Lamb, Bryn Eglwys. 'Rydym yn dymuno'n dda iddi gan wybod y gwnaiff hi'r gwaith yn ardderchog.

DYDDIADUR Y MIS

CHWEFROR

Chwefror 1, Gwener: LLANBERIS - Te yr Henoed.

4, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

6, Mercher: BETHEL - Pwyllgor y Neuadd. DEINIOLEN - Cyfarfod arbennig o Gymdeithas y Co-op am 7.00 yn Ysgol Gwaun Gynfi. LLANRUG - Y Cyngor Eglwys - Seiat am 7.00 yng Nghapel Tan-y-coed dan arweiniad y Parch. Gwynfor Williams.

7, Iau: LLANRUG - Noson Goffi Cymdeithas y Chwiorydd. DEINIOLEN - Cyfarfod y Chwiorydd.

8, Gwener: BETHEL - Noson Goffi yn y Neuadd am 7.30.

11, Llun: BETHEL - Clwb y Rhos. LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

12, Mawrth: LLANRUG - Merched y Wawr - sgwrs gan Mr Alun Evans, BBC. BETHEL - Clwb yr Henoed.

13, Mercher: BETHEL - Merched y Wawr.

14, Iau: LLANRUG - 1) Pwyllgor yr Ysgol Feithrin am 8.00 yn Festri Pontrhyallt. 2) Cymdeithas Lenyddol Capel M.C. - 'Profiadau'. Sgwrs gan Mr Cledwyn Williams, Tŷr Ysgol. WAUNFAWR - Clwb y Mamau - sgwrs gan Dr. R.S. Williams.

15, Gwener: DEINIOLEN - Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am 6.30. Dewisir Brenhines y Carnifal a'i gosgordd am 8.00. LLANBERIS - Te yr Henoed.

18, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

19, Mawrth: LLANRUG - Y Gymdeithas Undebol - sgwrs gan Mr Gwynfor Williams, Llanberis.

20, Mercher: CWM-Y-GLO - Merched y Wawr - sgwrs gan Mrs Ellis, Brynrefail.

22, Gwener: LLANBERIS - Noson Goffi yn y Ganolfan Gymdeithasol. Yr elw er budd y Ganolfan Iechyd.

23, Sadwrn: LLANRUG - Taith Beic Noddedig er budd yr Ysgol Feithrin.

25, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

28, Iau: LLANRUG - Cymdeithas Lenyddol Capel M.C. - darlith gan y Parch. H.J. Hughes, Porthaethwy.

29, Gwener: YR ARDAL - Clwb Eryri yn dathlu Gŵyl Dewi Sant yng Ngwesty Gwynedd. PENISARWAUN - Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghastell Cidwm. LLANBERIS - Te yr Henoed.

DYDDIADAU I'W COFIO

MAWRTH 8 - LLANBERIS - Noson o Adloniant a Chyw Iâr yn y 'Padarn Lake.

MAWRTH 26 - LLANRUG - Ffair Basg a Thombola dan nawdd Pwyllgor Ysgol Feithrin, Llanrug.

NANT PERIS

LLONGYFARCHION - i Mr a Mrs W. Jones, Bodffordd, Ynys Môn (Mair Searell) ar enedigaeth merch, chwaer i Aled ac wyres i Mr a Mrs Gwilym S. Jones, Gwyntant.

GWAELEDD - Drwg gennym ddeall fod Dafydd Pritchard, Tŷ Isaf wedi ei gipio i'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddo ac y cawn ei weld adre 'nôl yn fuan.

CYSTADLEUAETH FAWR Y NADOLIG

Y CANLYNIAD



Gerallt Lloyd Owen, un o berchnogion Gwasg Gwynedd yn tynnu cynnig buddugol Mrs N. Jones, 28 Stryd Elinor, Caernarfon. 'Roedd amryw ohonoch wedi adnabod Hogia'r Wyddfa'n fabis. Diolch i chi am eich cynigion. Dyma'r drefn gywir: 1. Arwel; 2. Vivian; 3. Elwyn; 4. Richard; 5. Myrddin.

Llongyfarchiadau Mrs Jones, mae record hir ddirveddaraf yr Hogia ar ei ffordd i chi.

TYWYDD MAWR DIWEDD 1979



Llyn Padarn yn cambyhafio eto.



Ffordd Afon Rhos, Llanrug yn byw i'w henw. A char pwy sydd yn y canol? Neb llai na ffotograffydd yr Eco.

OSMOND W. SHAW




Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio

BWLCH UCHAF
DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU - RECORDIAU - CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

Am Fargeinion mewn
setiau du a gwyn
a setiau lliw

SIOP DELEDU T CEPAS

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
(Ffôn Llanberis 205 min nos)

CHWARAEON

DILLAD NEWYDD I'R HOGIA

Darllenais â diddordeb sylwadau Richard Lloyd Jones yn y *Cymro*'r wythnos ddiwethaf ar nawddogaeth ym myd clybiau bychain. Cyfeirio a wnaeth at y ffaith fod amryw o dimau Cyngghair Môn ag enwau eu nawddogwyr ar eu crysau, ond na wyddai am yr un tim ar yr ochr hon i'r bont a fu'n ddigon lwcus i gael rhywun i brynu eu dillad iddynt.

Gweler yn y llun isod brawf fod o hyn allan yn hysbysebu eu noddwyr leiaf un tîm, ahwnnw o fro'r *Eco*, o bob tro y byddant yn chwarae.



Llun Tîm Pêl-droed Deiniolen a'r Pwyllgor.

O'r chwith i'r dde. Rhys Uchaf. Kevin Jones, Gareth Owen, Euryr Owen, David Brailsford, Adrian Williams, Trebor Thomas, John Williams, Ceris Jones, Karl Williams.

Rhys Ganol: Elfed Williams (Rheolwr, Eifion Jones, Frank Owen, Denny Moorhouse, Euryr Jones, Roberts Evans, Gwilym Williams, Noel Owen. Rhys flaen: Bryn Jones, Arwel Williams, Dilwyn Williams, Barry Williams, Llion Evans, Derwyn Jones, Barry Jones, Malcolm Allen.

Anrheg Nadolig Mr Denny Moorhouse i dîm dan 16 oed Deiniolen oedd set lawn o ddillad pêl-droed ac ar y crysau enw ei gwmni, sef Clogwyn Climbing Gear. Ni ddaeth cyfle iddynt eu defnyddio hyd yma, gan iddynt ystyried na fyddai gwynt a glaw Gŵyl San Steffan, yn eu gêm lwyddiannus yng Nghwpan Bernard Wardle (gweler yr adroddiad isod) yn fedydd addas iddynt. 'Does ryfedd felly na ddaeth gohebydd y *Cymro*, nac ychwaith yr un papur arall, i wybod am y nawddogaeth arbennig hon.

Mewn tyddyn bach ar ochr y mynydd uwchben y pentref y dechreuodd Mr Moorhouse ei fusnes. Datblygodd yn fuan fel y daeth dringwyr i ddewis yr offer, a'u

defnyddio ar rai o fynyddoedd uchaf'r byd. Bellach mae'r cwmni'n cyflogi nifer helaeth ac ar fin symyd i'w adeilad newydd yng Nghlwt-y-bont.

Nid y tîm pêl-droed lleol fu'r unig rai i fanteisio ar eu haelioni ychwaith, gan i mi weld ar y teledu ychydig wythnosau'n ôl iddynt noddî'r dringwyr lleol â'u holl offer dringo yn eu hantur i'r Andes.

Nid Mr Moorhouse yw unig cymwynaswr yr hogia, gan fod Mr Emrys Hughes, gynt o Gwm-y-glo, ac sydd bellach yn athro yn Lerpwl, wedi trefnu iddynt gael gweld y gêm rhwng Lerpwl ac Ipswich yng nghanol y mis. Byddant hefyd, yn ystod yr un ymweliad â'r ddinas, yn chwarae yn erbyn tîm ysgol yno.



1926-1927

Yr hen dîm pêl-droed Llanberis. Mae rhai wedi ein gadael erbyn hyn. A oes rhywun yn eu cofio tybed? Llun: Mrs Clara Roberts, Anfield, Llanberis.

PÊL-DROED

LLANBERIS

LLANRUG

Mae'n ymddangos bellach mai ras rhwng Llanberis, ail dîm Caernarfon a Mountain Rangers yw hi am fod eleni am bencampwriaeth y Gynghrair. Mae'r un nifer o bwyntiau gan y tri chlwb, ond mae Caernarfon wedi chwarae dwy gêm yn fwy. Gan Lanberis mae'r cyfartaledd goliau gorau o ddigon, a hwy yw'r unig glwb sydd heb golli'r un gêm.

Yn ystod y mis chwaraewyd dwy gêm Gynghrair a llwyddwyd i fynd ymhellach mewn dwy Gystadleuaeth Cwpan.

Yng ngêm cynta'r mis, yn Hiracl, 'roedd yr hogia'n hwylio'n braf am fuddugoliaeth arall, yn arwain o 3 gol i 1 a dim ond ychydig funudau'n aros pan y'u hysgytydd gan ddwy gol sydyn. Pwynt yn unig felly, ac Einion Holland, Ray Harding a Peter Jones yn sgorio iddynt.

Cwpan Moorings aeth a'u sylw ar y 12ed, ac nid tasg i'w chenfigennu oedd gorfod ymladd am eu lle yn yr ail rownd ar gae Caernarfon Utd., sy'n ddipyn gwell tîm na awgrymir gan eu safle yn hanner isa'r tabl. Bu angen tair gol, dwy gan Iwan Evans ac un gan Keith Davies i sicrhau'r fuddugoliaeth.

Daeth Abergele Utd. i Lanbêr ar y 19eg i benderfynu pwy oedd am fynd ymlaen i bedwaredd rownd Cwpan J.W. Lees, a bu gol yr un gan Iwan Evans a Ray Harding yn ddigon i roi terfyn ar obeithion yr hogia o Glwyd.

Ni fydd Celtiaid Talysarn yn anghofio eu hymweliad â'r ardal yn fuan, gan iddynt golli'n drwm y Sadwrn diwethaf, o 8 gol i 1. Gêm hawdd - AM FOD LLANBÊR WEDI EI GWNEUD YN HAWDD. Llwyddodd Iwan Evans, Ray Harding a Gwilym Williams i rwydo ddwywaith, Gareth Williams ac Einion Holland yn sgorio'r ddwy arall.

Gemau cwpan fu'n mynd â bryd Llanrug yn ystod y mis: Curo Bangor Athletic (5-1) a Harlech yn y Cwpan Iau.

Buddugoliaeth hawdd yn erbyn Bangor, ond bu'n rhaid ail-chwarae'n erbyn Harlech ar ôl rhannu wyth gol yn Llanrug. Yn yr ail gêm, Harlech eto'n chwarae'n dda, ond Llanrug oedd yn medru rhoi'r bêl yng nghefn y rhwyd, ac yn sgorio pump gol heb ateb.

Mae Llanrug drwodd i rownd go-gynderfynol y Cwpan Iau, a byddant yn wynebu ail dîm Caernarfon yn Llanrug ar Chwefror 9ed. Bydd angen cefnogaeth, felly dowch yno'n llw.

Ennill oedd hanes Llanrug yn y Cwpan arall hefyd, sef Cwpan J.W. Lees, gan guro tîm Point of Ayr o Gynghrair Clwyd (Dic Owen yn sgorio 3).

Nid yw Llanrug yn cael cystal hwyl yn y Gynghrair y tymor hwn, a cholli fu eu hanes mewn gêm gyffrous yn erbyn Bethesda y Sadwrn diwethaf. Dic Owen yn rhoi Llanrug ar y blaen, ond Bethesda'n taro'n ôl, ac yn mynd ar y blaen i arwain o 3-1. Llanrug yn ymladd yn ôl, ond dim ond Hefin Jones a ddarganfu gefn y rhwyd iddynt, a cholli 2-3 fu'r hanes.

Yn ystod y mis cynhaliwyd disco llwyddiannus gan y Clwb, a gobeithir cynnal Tombola arall yn y pentref cyn diwedd y tymor.

Bydd Biros y Clwb ar werth yn fuan iawn, ac y mae 'sweaters' y Clwb i'w cael am £8.50 oddi wrth yr Ysgrifennydd: D.W. Thomas, Bron-y-Nant, Llanrug.

CYNGHRAIR ARFON

	ch	e	cyf	c	ob	yn	pt
Llanberis	17	11	6	0	63	16	28
C'fon Res.	19	11	6	2	60	21	28
Mountain R.	17	13	2	2	49	19	28
Llanrug	18	10	2	6	44	29	22

CWPAN BERNARD WARDLE

Ar Ragfyr 26 bu tîm dan 16 oed yn fuddugol unwaith eto yn rownd derfynol Cwpan Bernard Wardle. Dyma'r drydedd waith mewn olyniaeth i'r Gwpan ddychwelyd i Ddeiniolen.

Daeth y fuddugoliaeth dros dîm Cae Glyn United, Caernarfon. Sgôr o 3-1 i Ddeiniolen gydag Euryr Owen, Karl Williams a Trebor Thomas yn rhoi'r bêl yn y rhwyd i Ddeiniolen. Chwaraewyd y gêm trwy law trwm ac amodau lleidiog, oer a chaled.

Wedi'r gêm cafwyd lluniaeth yng Ngwesty'r Tarw. Yno cyflwynwyd Cwpan Coffa Huw Roberts (gynt o 25 Hafod Olau) i chwaraewr y gêm - Malcolm Allen (gweler colofn Deiniolen).

SNWCER CLWB LLANRUG

Mae'r duon bellach yn bedwerydd yn nhabl y gynghrair, y safle uchaf o holl glybiau'r ardal, ac wedi ennill 10 o'r 16 gêm a chwaraewyd.

Trechwyd duon Bangor Cons. 6-0 yn rownd gyn-derfynol Cwpan Pattison, a derbyniwyd tystysgrif brêc uchel gan Clive Griffith, (39, 38, 38, 35), A. Brobyn (36), K. Jones (34) ac N. Owen (36).

Mae Clive hefyd yn rownd go-gynderfynol pencampwriaeth unigolion y gynghrair gyntaf, ac yn un o'r 16 olaf ym mhenacampwriaeth Gogledd

Cymru. Mae hefyd wedi ei ddewis yn un o 9 o chwaraewyr a fydd yn chwarae yn erbyn Pencampwr y Byd, Terry Griffiths, ar Chwefror 11 yn Llay, ger Wrecsam.

Mae'r Gleision ar ben y tabl yn Adran B, ond yn anffodus allan o gystadleuaeth Cwpan y Gynghrair a'r Cwpan Pattison.

Mae Phillip Lea a Gerald Griffith yn rownd gyn-derfynol pencampwriaeth i unigolion Adran B, a Geraint Roberts a Paul Williams yn rownd gyn-derfynol y bencampwriaeth i barau.